Secstio: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu dysgwyr

Canllawiau ar gyfer lleoliadau addysgol yng Nghymru

UK COUNCIL FOR CHILD INTERNET SAFETY

Cynhyrchir y cyngor hwn gan Weithgor Addysg UKCCIS mewn cydweithrediad
â Llywodraeth Cymru a Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.

Department for Digital, Culture Media & Sport

Cynhyrchwyd y cynnwys gwreiddiol hon mewn partneriaeth â:

Believe in children Barnardo's

NSPCC

NUT

PSHE Association

CEOP A National Crime Agency command

Kent County Council kent.gov.uk

UK Safer Internet Centre

Childnet International

parentZONE MAKING THE INTERNET WORK FOR FAMILIES

Cynnwys

1 **Cefndir a chyd-destun** **4**
Ar gyfer pwy mae hwn? 4
Beth mae'r cyngor hwn yn ei gynnwys? 4
Beth yw statws y cyngor hwn? 4
Diffinio 'secstio' 5
Pam y cynhyrchwyd y cyngor hwn? 6
Y gyfraith 7
Troseddoli plant 8
Ymateb yr heddlu 8
Cofnodi troseddau 9
Deilliant 21 9
Tystysgrifau DBS 10

2 **Delio â digwyddiadau** **11**
Ymateb cychwynnol 11
Datgeliad 11
Cyfarfod adolygu cychwynnol 12
Asesu'r risgiau 13
Hysbysu rhieni neu ofalwyr 16
Riportio digwyddiadau i'r heddlu 16
Cysylltu ac atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol 17
Gweld a dileu delweddau above 17
Gweld y delweddau 17
Dileu delweddau 17
Cyfweld a siarad â'r person/pobl ifanc dan sylw 18
Cofnodi digwyddiadau 19
Adrodd yn ôl am ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc ar-lein 20

3 **Addysgu pobl ifanc** **21**
Pam y dylem ddysgu pobl ifanc am ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc? 21
Sut ddylem ddysgu pobl ifanc am ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc? 21
Pryd mae addysgu pobl ifanc am y materion yma? 22
Pa adnoddau sydd ar gael? 24
Atodiad A Penderfynu cynnwys yr heddlu neu beidio a/neu wasanaethau cymdeithasol 26
Atodiad B Ystyriaethau oedran 30
Atodiad C Gweithio gyda rhieni a gofalwyr 32
Atodiad D Adrodd yn ôl am ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc ar-lein 36
Atodiad E Ymarferiad hyfforddi staff 39
Atodiad F Siart llif ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau 46

1 CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Ar gyfer pwy mae hwn?

Mae'r cyngor hwn ar gyfer yr uwch berson dynodedig ar gyfer amddiffyn plant (DSP), penaethiaid ac uwch dimau rheoli mewn ysgolion, colegau a sefydliadau addysgol[1] eraill yng Nghymru.

Beth mae'r cyngor hwn yn ei gynnwys?

Mae'r cyngor hwn yn cynnwys:

- Ymateb i ddatgeliadau
- Delio â dyfeisiau a delweddau
- Asesu risg sefyllfaoedd
- cynnwys asiantaethau eraill, yn cynnwys esgoli i'r heddlu a gwasanaethau cymdeithasol
- Cofnodi digwyddiadau
- Cynnwys rhieni/gofalwyr
- Addysg ataliol.

Beth yw statws y cyngor hwn?

Cynhyrchwyd y cyngor hwn ar ran Cyngor Diogelwch Plant ar y Rhyngrwyd ar gyfer y Deyrnas Unedig (UKCCIS), sef grŵp o fwy na 200 o sefydliadau ar draws y sectorau llywodraeth, diwydiant, y gyfraith, academia ac elusennau, sy'n gweithio mewn partneriaeth er mwyn helpu i gadw plant yn ddiogel ar-lein. Cynhyrchir y cyngor gan Weithgor Addysg UKCCIS mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (AWSLCP).

Cynhyrchwyd y cyngor hwn mewn ymgynghoriad â Chyngor Prif Swyddogion yr Heddlu Cenedlaethol.

Ymgynghorwyd hefyd ag ystod eang o ysgolion, awdurdodau lleol, heddluoedd a sefydliadau eraill, yn cynnwys y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd, NUT, NASUWT a NAHT.

Mae'r cyngor hwn yn disodli 'Secstio mewn Ysgolion: Beth i'w wneud a sut mae delio ag ef.'

1 Mae'r cyngor hwn yn disodli '*Sexting in Schools: What to do and how to handle it*.'

Mae'r cyngor hwn yn anstatudol a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, *Cadw dysgwyr yn ddiogel, Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan ganllaw statudol Deddf Addysg 2002*.[2]

Diffinio 'secstio'

Er bod ymarferwyr yn cyfeirio at y mater fel 'secstio' nid oes diffiniad clir o beth yw 'secstio'. Mae nifer o ymarferwyr yn ystyried mai secstio yw 'anfon neu bostio delweddau awgrymiadol rywiol, yn cynnwys lluniau noeth neu hanner noeth, drwy ffonau symudol neu ar y Rhyngrwyd.'[3] Mae'r AWSLCP yn defnyddio'r diffiniad canlynol "*Postio neu anfon negeseuon neu luniau neu glipiau fideo noeth neu hanner noeth ar-lein drwy unrhyw ddyfais ddigidol*".[4] Ond eto, pan ofynnir i bobl ifanc[5] 'Beth mae secstio yn ei olygu i chi?' maent yn fwy tebygol o ddehongli secstio fel 'ysgrifennu a rhannu negeseuon rhywiol gyda phobl maent yn eu hadnabod'.[6] Yn yr un modd, mae llawer o rieni yn meddwl mai secstio yw negeseuon testun gogleisiol neu rywiol yn hytrach na delweddau.[7]

Nid yw'r cyngor hwn ond yn cynnwys rhannu delweddau rhywiol gan bobl ifanc. Mae creu a rhannu lluniau a fideos rhywiol o bobl o dan 18 oed yn anghyfreithlon, ac felly mae hynny yn achosi'r cymhlethdod mwyaf i ysgolion ac asiantaethau eraill wrth ymateb i hynny. Mae hynny hefyd yn achosi amrywiaeth o risgiau sydd angen eu rheoli'n ofalus.

Ar sail hynny, mae'r cyngor hwn yn cyflwyno'r ymadrodd 'delweddau rhywiol[8] a gynhyrchir gan bobl ifanc' ac mae'n defnyddio hynny yn hytrach na 'secstio.' Gwneir hynny er mwyn sicrhau eglurder ynghylch y materion y mae'r cyngor hwn yn ymdrin â hwy.

Mae 'Delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc' yn ddisgrifiad gwell o'r arferiad oherwydd:

- mae 'a gynhyrchir gan ieuenctid' yn cynnwys pobl yn rhannu delweddau y mae nhw eu hunain, neu berson ifanc arall, wedi eu creu.
- mae 'rhywiol' yn fwy clir nag 'anweddus'. Mae penderfynu a yw rhywbeth yn 'weddus' yn benderfyniad ar sail gwerthoedd ac yn ddibynnol ar gyd-destun.
- mae 'delweddau' yn cynnwys lluniau llonydd a fideos (a dyna yw'r ystyr pan gyfeirir at ddelweddau yn y ddogfen drwyddi draw).

Y math o ddigwyddiadau gaiff eu cynnwys yn y cyngor hwn yw:

- person o dan 18 oed yn creu ac yn rhannu delweddau rhywiol ohonynt eu hunain gyda chyfoed o dan 18 oed
- person o dan 18 oed yn rhannu delweddau rhywiol a grëwyd gan berson arall o dan 18 oed gyda chyfoed o dan 18 oed neu oedolyn
- person o dan 18 oed yn meddu ar ddelweddau rhywiol a grëwyd gan berson arall o dan 18 oed.

2 http://learning.gov.wales/resources/browse-all/keeping-learners-safe/?skip=1&lang=cy 3 Y glasoed a delweddau rhywiol a dynnwyd ohonynt eu hunain. Cooper, Quayle, Jonsson, Svedin, 2014 4 http://www.schoolbeat.org/fileadmin/teachers/ks3/risky-pics/eng/follow-up/15b.%20Definition.pdf
5 At ddiben y cyngor hwn mae 'person ifanc' yn cyfeirio at unrhyw un o dan 18 oed 6 I wasn't sure it was normal to watch it. NSPCC, Prifysgol Middlesex, Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr 2016 7 Arolwg Secstio ChildLine 2016 8 At ddiben y cyngor hwn mae 'ieuenctid' yn cyfeirio at unrhyw un o dan 18 oed.

Nid yw'r cyngor hwn yn cynnwys:

- rhannu delweddau rhywiol o bobl o dan 18 oed gan oedolion, oherwydd bod hynny yn gyfystyr â cham-drin plant yn rhywiol, a dylai ysgolion bob amser hysbysu'r heddlu
- pobl ifanc o dan 18 oed yn rhannu pornograffi oedolion neu'n cyfnewid negeseuon testun rhywiol nad ydynt yn cynnwys delweddau.

Pam y cynhyrchwyd y cyngor hwn?

Mae rhannu lluniau a fideos ar-lein yn rhan o fywyd bob dydd i nifer o bobl, ac mae'n eu galluogi i rannu eu profiadau, cysylltu â ffrindiau a chofnodi eu bywydau.

Gellir rhannu lluniau a fideos fel negeseuon testun, e-bost, eu postio ar gyfryngau cymdeithasol, neu'n gynyddol drwy apiau negeseuon symudol, megis Snapchat, WhatsApp neu Facebook Messenger.

Yn y DU, mae 90% o rai 16-24 oed a 69% o rai 12-15 oed yn berchen ar ffonau clyfar[9], sy'n rhoi'r gallu iddynt greu a rhannu lluniau a fideos yn gyflym a hawdd.

Mae'r cynnydd hwn o ran cyflymder a rhwyddineb rhannu delweddau wedi codi pryderon ynghylch pobl ifanc yn cynhyrchu a rhannu delweddau rhywiol ohonynt eu hunain. Gall hynny achosi risgiau iddynt, yn arbennig os caiff y delweddau eu rhannu ymhellach, yn cynnwys codi cywilydd, bwlio a'r risg o fod yn fwy agored i ddioddef ecsbloetio rhywiol. Mae cynhyrchu a rhannu delweddau rhywiol o rai o dan 18 oed hefyd yn anghyfreithlon.

Er bod cynhyrchu delweddau o'r fath yn debygol o ddigwydd y tu allan i'r ysgol neu goleg, mae'r materion hyn yn aml yn amlygu eu hunain mewn ysgolion, colegau a sefydliadau addysgol. Mae angen i ysgolion, colegau a sefydliadau addysgol eraill allu ymateb yn gyflym a hyderus er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu, eu cefnogi a'u haddysgu.

Mae'r cyngor hwn yn amcanu at gynorthwyo ysgolion, colegau a sefydliadau addysgol eraill wrth ddatblygu gweithdrefnau er mwyn ymateb i ddigwyddiadau sy'n cynnwys delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc. Mae hefyd yn cyfeirio at ffynonellau adnoddau a chymorth.

Mae Atodiad F yn cynnig siart llif ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau.

Dylai'r gweithdrefnau hyn fod yn ran o drefniadau diogelu'r ysgol, a dylid delio â phob digwyddiad o ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc fel mater diogelu.

Dylai'r ymateb i'r digwyddiadau hyn gael ei arwain gan egwyddor cymesuredd, ac amddiffyn a diogelu llesiant y plant a'r bobl ifanc o dan sylw ddylai'r prif ystyriaeth fod.

9 https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/media-literacy-research/childrens/children-parents-nov-15

Y gyfraith

Mae llawer o'r cymhlethdod o ran ymateb i ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc yn deillio o'i statws cyfreithiol. Mae creu, meddu ar neu rannu unrhyw ddelweddau o bobl o dan 18 oed sy'n 'anweddus' yn anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys delweddau ohonoch eich hun os ydych o dan 18 oed.

Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn gynwysedig yn Neddf Amddiffyn Plant 1978 (Cymru a Lloegr) fel y'i diwygiwyd yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 (Cymru a Lloegr).

Yn benodol:

- mae cymryd, creu, caniatáu cymryd, rhannu, dangos, meddu ar, meddu ar gyda'r bwriad o rannu neu hysbysu lluniau neu ffug luniau o blentyn[10] yn drosedd
- mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Cymru a Lloegr) yn diffinio plentyn, at ddiben delweddau anweddus, fel unrhyw un o dan 18 oed.

Ni ddiffinnir 'anweddus' mewn deddfwriaeth. Pan fo achosion yn cael eu herlyn, y rheithgor, ustus neu Farnwr Rhanbarth sydd i benderfynu a yw unrhyw lun o blentyn yn anweddus neu beidio, a hynny'n seiliedig ar beth yw'r safon priodoldeb cydnabyddedig[11]. At y rhan fwyaf o ddibenion, os bydd delweddau yn cynnwys person ifanc noeth, merch fronnoeth, a/neu'n dangos organau cenhedlu neu weithredoedd rhywiol, yn cynnwys mastyrbio, byddant yn cael eu hystyried yn anweddus. Hefyd gall delweddau anweddus gynnwys delweddau gor-rywiol o bobl ifanc yn eu dillad isaf.

Yng Nghymru, bwriad darpariaethau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw sicrhau ffocws ar draws y sector cyhoeddus ar atal y problemau hyn, amddiffyn dioddefwyr a cynorthwyo rhai y mae materion o'r fath yn effeithio arnynt. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn holl bobl Cymru, beth bynnag fo'u rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Ddeddf yn amcanu at greu gwell ymateb gan y sector cyhoeddus i drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Prif amcanion y Ddeddf yw gwella trefniadau ar gyfer:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o, ac atal, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr trais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol;
- cryfhau'r arweinyddiaeth strategol a'r atebolrwydd am drais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol; a
- gwella cysondeb, ansawdd ac uno gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru.

Nid oes cyfyngiad oed yn y Ddeddf, felly mae plant sy'n gweld neu'n dioddef trais neu gamdriniaeth o'r fath, a phobl hŷn, yn gynwysedig.

Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu wedi gweithio gyda'r coleg plismona i lunio cyngor gweithredol newydd ar gyfer gorfodi'r gyfraith yn gysylltiedig ag ymchwilio i droseddau delweddau rhywiol sy'n cael eu cynhyrchu gan bobl

10 Ffug lun yw "delwedd, a grëir naill ai gan raffeg cyfrifiadurol neu fel arall ym mha bynnag fodd, y mae'n ymddangos ei fod yn llun" (s.7(7))
11 http://www.cps.gov.uk/legal/h_to_k/indecent_images_of_children/

ifanc. Bydd hyn yn gymorth i alluogi gwasanaethau heddlu lleol i ddatblygu ymateb cymesur, effeithiol a chydlynol yn y maes hwn, gan ganolbwyntio ar ddiogelu. Mae ar gael ar wefan y Coleg Plismona.

Troseddoli plant

Crëwyd y ddeddf sy'n troseddoli cymryd, meddu ar neu rannu delweddau anweddus o blant ymhell cyn bod y rhyngrwyd, ffonau symudol a ffotograffiaeth digidol yn cael eu defnyddio i'r graddau a wneir heddiw. Fe'i crëwyd hefyd i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag oedolion oedd yn ceisio eu cam-drin yn rhywiol neu gael pleser o'u cam-drin yn rhywiol. Nid troseddoli plant oedd y bwriad.

Er hyn, mae pobl ifanc sy'n cymryd, yn meddu ar neu'n rhannu delweddau rhywiol ohonynt eu hunain neu gyfoedion yn torri'r gyfraith.

Fodd bynnag, ni ddylem droseddoli plant yn ddiangen. Mae plant sydd â chofnod troseddol yn wynebu stigma a gwahaniaethu mewn perthynas â chael mynediad i addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, teithio a thai, a gall y rhwystrau hyn ddilyn plant i fyd oedolion.[12]

Er bod pobl ifanc sy'n creu a rhannu delweddau rhywiol yn achosi risg iddyn nhw eu hunain ac eraill, mae hynny'n syml o ganlyniad i chwilfrydedd naturiol pobl ifanc ynghylch rhyw a'u harchwiliad o berthnasau. Yn aml, mae pobl ifanc angen addysg, cymorth a gwarchodaeth, nid eu troseddoli.

Ymateb yr heddlu

Mae Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu Cenedlaethol (NPCC) wedi egluro y dylid trin digwyddiadau sy'n ymwneud â delweddau rywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc fel mater diogelu yn bennaf.

Gall ysgolion, colegau a sefydliadau addysgol eraill ymateb i ddigwyddiadau heb gynnwys yr heddlu. Mae cyngor ar gael yn Adran 2 ar pryd y byddai hynny'n briodol.

Fodd bynnag, gall fod angen i'r heddlu ymwneud ag achosion er mwyn sicrhau ymchwiliad trylwyr, yn cynnwys casglu'r holl dystiolaeth (er enghraifft, drwy wiriadau amlasiantaethau), ac mae yna ddigwyddiadau wedi eu hamlygu yn y cyngor hwn y dylid eu cyfeirio bob amser i'r heddlu (gweler Adran 2).

Pan fo'r heddlu yn ymwneud ag achos, byddai ymateb cyfiawnder troseddol a sancsiwn ffurfiol yn erbyn person ifanc yn cael ei ystyried yn briodol dim ond o dan amgylchiadau penodol fath.

12 Tyfu i Fyny. Symud Ymlaen - Trin Cofnodion Troseddol Plant yn Rhyngwladol, Pwyllgor Sefydlog ar Gyfiawnder Ieuenctid, 2016

Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu wedi gweithio gyda'r coleg plismona i lunio cyngor gweithredol newydd ar gyfer gorfodi'r gyfraith yn gysylltiedig ag ymchwilio i droseddau delweddau rhywiol sy'n cael eu cynhyrchu gan bobl ifanc. Bydd hyn yn gymorth i alluogi gwasanaethau heddlu lleol i ddatblygu ymateb cymesur, effeithiol a chydlynol yn y maes hwn, gan ganolbwyntio ar ddiogelu. Mae ar gael ar wefan y Coleg Plismona.

Cofnodi troseddau

Pan hysbysir yr heddlu am ddigwyddiadau o ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, mae'n ddyletswydd arnynt, o dan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref a'r Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol, i gofnodi'r digwyddiad ar eu systemau troseddau. Bydd y digwyddiad yn cael ei restru fel 'trosedd' a bydd y person ifanc dan sylw yn cael ei restru fel 'un a amheuir'.

Nid yw hyn yn gyfystyr â chael cofnod troseddol.

Fodd bynnag, bu pryderon y gellid effeithio'n negyddol ar bobl ifanc petai'r drosedd honno yn cael ei datgelu, er enghraifft mewn gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Er mwyn lliniaru'r risg, mae'r NPCC wedi gweithio â'r Swyddfa Gartref a'r swyddfa Datgelu a Gwahardd ac wedi darparu plismona gyda ffordd newydd o gofnodi deilliant ymchwiliad i ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc. Gelwir hynny yn ddeilliant 21.

Deilliant 21

Mae'n rhaid aseinio deilliant i bob 'trosedd' a gofnodir ar systemau'r heddlu o restr o godau deilliannau sydd wedi eu diffinio ymlaen llaw. Ym mis Ionawr 2016, bu i'r Swyddfa Gartref lansio cod deilliant newydd (Deilliant 21) er mwy helpu i ffurfioli'r disgresiwn sydd ar gael i'r heddlu wrth ddelio â throseddau megis delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc.

Mae Deilliant 21 yn nodi:

> *Nid yw ymchwilio pellach, sy'n deillio o'r adroddiad ar y drosedd, allai ddarparu digon o dystiolaeth i ategu camau ffurfiol yn erbyn rhywun a amheuir, er lles y cyhoedd. Mae hynny yn benderfyniad i'r heddlu.*

Mae hynny'n golygu, er bod person ifanc wedi torri'r gyfraith ac y gallai'r heddlu ddarparu tystiolaeth ei fod wedi gwneud hynny, gall yr heddlu gofnodi eu bod wedi dewis peidio cymryd camau pellach gan nad oedd er lles y cyhoedd.

Tystysgrifau DBS

Nid yw'n bosib dweud yn hollol bendant na fyddai digwyddiad o ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc a gofnodwyd ar systemau'r heddlu gyda Deilliant 21 fyth yn cael ei ddatgelu ar dystysgrif DBS.

Fodd bynnag, mae penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth ar dystysgrif DBS yn cael ei wneud ar sail p'un a yw'r wybodaeth honno yn berthnasol i'r risg allai'r unigolyn hwnnw ei achosi i blant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i risg.

Gall gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarn neu rybudd gael ei gynnwys ar dystysgrif DBS dim ond pan fo unigolyn wedi gwneud cais am Wiriad Cofnodion Troseddol Manwl. Mewn achosion o'r fath, prif swyddog fyddai'n penderfynu pa wybodaeth (yn ychwanegol at euogfarnau a rhybuddion a ddelir ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu) ddylai gael ei darparu i'w chynnwys ar dystysgrif DBS.

Pe ystyrid bod Deilliant 21 yn briodol o ganlyniad i ymchwiliad yr heddlu, byddai hynny yn arwydd na ystyriwyd bod sancsiwn cyfiawnder troseddol yn briodol. Petai'n ddigwyddiad ar ei ben ei hun, mae'n annhebygol y byddai yna lawer o achosion y byddi'r prawf datgelu, y mae'n rhaid i'r prif swyddog ei gymhwyso, yn cael ei basio.[13]

O ganlyniad i hynny, gall ysgolion a cholegau fod yn hyderus bod gan yr heddlu ddisgresiwn i ymateb yn briodol mewn achosion o ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc mewn ffordd na ddylai effeithio'n negyddol yn yr hirdymor ar bobl ifanc.

13 Mae'n rhaid i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud yn seiliedig ar bod y prif swyddog o fewn rheswm yn credu bod y wybodaeth yn berthnasol at ddiben y datgeliad (er enghraifft, rhywun yn derbyn swydd sy'n golygu gweithio gyda phlant) ac yn ystyried y dylid ei chynnwys.

2 DELIO Â DIGWYDDIADAU

Ymateb cychwynnol

Mae'r canllawi statudol *Cadw dysgwyr yn ddiogel* yn nodi y dylai pawb yn y system addysg greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel a chlustnodi pryderon ynghylch lles plant a chymryd camau i ddelio â hwy, pan fo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae'n rhaid i bob ysgol a choleg gael polisi amddiffyn plant, a gallant ddymuno ystyried sut maent yn adlewyrchu eu hymagwedd tuag at ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc yn y polisi hwnnw.

Dylid ymateb i bob digwyddiad o ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc yn unol â pholisi diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol.

Pan fo digwyddiad o ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc yn dod i sylw ysgol neu goleg:

- dylid cyfeirio'r digwyddiad i sylw'r Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant (DSP) cyn gynted â phosibl
- dylai'r DSP gynnal cyfarfod adolygu cychwynnol gydag aelodau staff priodol yr ysgol. Efallai bydd y DSP yn dymuno ceisio cyngor cyffredinol gan Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol
- dylid cynnal cyfweliadau dilynol gyda'r bobl ifanc o dan sylw (os yn briodol)
- dylid hysbysu rhieni neu ofalwyr yn gynnar a'u cynnwys yn y broses oni bai fod yna reswm da i gredu y byddai cynnwys y rhieni/gofalwyr yn golygu y byddai'r person ifanc yn wynebu risg o niwed
- ar unrhyw adeg yn ystod y broses, os pryderir fod person ifanc wedi cael ei niweidio neu ei fod yn wynebu risg o gael ei niweidio, dylid cyfeirio'r mater at y gwasanaethau cymdeithasol a/neu yr heddlu ar unwaith yn unol â threfniadau arferol yr ysgol, coleg neu sefydliad addysgol arall.

Datgeliad

Gall datgeliadau mewn perthynas â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc ddigwydd mewn amryw o ffyrdd. Gall y person ifanc yr effeithir arno roi gwybod i athro dosbarth, y DSP yn yr ysgol, neu unrhyw aelod o staff yr ysgol neu goleg. Gallant adrodd yn ôl ynghylch y digwyddiad drwy gyfrwng strwythur adrodd yn ôl sy'n bodoli, neu gall ffrind neu riant/gofalwr after rhiant hysbysu rhywun yn yr ysgol neu goleg, neu hysbysu'r heddlu yn uniongyrchol.

Dylai pob aelod staff (yn cynnwys staff nad ydynt yn addysgu) fod yn ymwybodol o sut mae adnabod a chyfeirio unrhyw ddatgeliadau o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â phob mater mewn perthynas ag amddiffyn plant, yn cynnwys delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc. Dylai hynny gael ei gynnwys yn hyfforddiant y staff. Mae Atodiad E yn cynnwys ymarferiad hyfforddi ellir ei ddefnyddio er mwyn amlygu'r materion ymysg staff.

Dylai unrhyw ddatgeliad gan berson ifanc gael ei drin yn ddifrifol iawn. Mae'n debygol y bydd unrhyw berson ifanc sy'n datgelu ei fod yn destun delwedd rywiol yn teimlo cywilydd ac yn bryderus am y canlyniadau. Mae'n debyg mai datgelu yn yr ysgol yw'r dewis olaf, ac efallai ei fod wedi ceisio datrys y mater ei hun.

Cyfarfod adolygu cychwynnol

Dylai'r cyfarfod adolygu cychwynnol ystyried y dystiolaeth gychwynnol a cheisio sefydlu:

- pan fo yna risg uniongyrchol i berson ifanc neu bobl ifanc
- a ddylid cyfeirio'r mater i'r heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol
- ni ddylid edrych ar y delweddau, ac eithrio dan amgylchiadau pan fo hynny'n gwbl hanfodol er mwyn diogelu'r person ifanc. *Cyfeiriwch at yr adran Gweld a dileu delweddau*
- pa wybodaeth arall sydd ei hangen er mwyn gallu penderfynu ar yr ymateb gorau
- a yw'r ddelwedd wedi cael ei rhannu'n eang a drwy pa wasanaethau a/neu blatfformau. Efallai na fydd hynny'n hysbys
- a ddylid cymryd camau ar unwaith i ddileu neu dynnu'r delweddau oddi ar ddyfeisiau neu wasanaethau ar-lein*. Cyfeiriwch at Gweld a dileu delweddau*
- unrhyw ffeithiau perthnasol am y bobl ifanc o dan sylw fyddai'n dylanwadu ar yr asesiad risg
- a oes angen cysylltu ag ysgol, coleg, sefydliad neu unigolyn arall
- a ddylid cysylltu â rhieni neu ofalwyr y disgyblion dan sylw - yn y rhan fwyaf o achosion dylid eu cynnwys.

Dylid cyfeirio'r mater yn syth i'r heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol[14] os, yn ystod y cam cychwynnol hwn:

1. mae'r digwyddiad yn ymwneud ag oedolyn
2. mae yna reswm i gredu bod person ifanc wedi cael ei gymell, ei flacmelio neu ei feithrin, neu os pryderir am eu gallu i gydsynio (er enghraifft, o ganlyniad i anghenion addysgol arbennig)
3. mae'r hyn a wyddoch am y ddelwedd yn awgrymu bod y cynnwys yn darlunio gweithredoedd rhywiol sy'n anarferol ar gyfer cam datblygiadol y person ifanc, neu sy'n dreisgar
4. mae'r delweddau yn cynnwys gweithredoedd rhywiol ac mae unrhyw blentyn yn y delweddau o dan 13 oed[15]
5. mae gennych reswm i gredu bod person ifanc yn wynebu risg uniongyrchol o niwed o ganlyniad i rannu'r ddelwedd, er enghraifft, mae'n ymddangos bod y person ifanc mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu hunan-niwed.

14 Os oes gan ardal leol yr ysgol Hyb Diogelu Amlasiantaeth, efallai mai dyma'r pwynt cyswllt cyntaf mwyaf priodol. **15** Gweler Atodiad D i gael mwy o wybodaeth am ystyriaethau oedran.

Os nad yw'r un o'r uchod yn gymwys, gall ysgol neu goleg ddewis ymateb i'r digwyddiad heb gynnwys yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol (gall ysgol ddewis esgoli'r digwyddiad ar unrhyw adeg os bydd mwy o wybodaeth/pryderon yn dod i'r amlwg). Mae Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol bob amser ar gael i roi mwy o gyngor cyffredinol os bydd angen hynny ar unrhyw adeg.

Byddai penderfyniad i ymateb i'r digwyddiad heb gynnwys yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei wneud mewn achosion pan fo'r DSP yn hyderus bod ganddo ddigon o wybodaeth i asesu'r risgiau i'r disgyblion dan sylw ac y gellir rheoli'r risgiau o fewn fframwaith cymorth bugeiliol a disgyblaethol yr ysgol, a'u rhwydwaith cymorth lleol os yn briodol.

Dylai'r penderfyniad gael ei wneud gan y DSP mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth. Dylid cofnodi'r penderfyniad yn unol â pholisi'r ysgol neu goleg.

Dylai'r penderfyniad fod yn unol â pholisi a gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol a dylid ei seilio ar ystyriaethau mewn perthynas â lles y bobl ifanc o dan sylw. Dylai hynny roi ystyriaeth i gymesuredd yn ogystal â lles ac amddiffyn y bobl ifanc. Dylai'r penderfyniad gael ei adolygu drwy gydol y broses o ymateb i'r digwyddiad.

Os bydd person ifanc wedi rhannu delweddau'n gydsyniol, megis yn ystod perthynas ramantus, neu fel jôc, ac nad oes dim malais bwriadol, fel arfer mae'n briodol i'r ysgol reoli'r digwyddiad yn uniongyrchol. I'r gwrthwyneb, yn gyffredinol dylai digwyddiadau â ffactorau gwaethygol, er enghraifft, person ifanc yn rhannu delweddau rhywun arall heb ganiatâd a gyda bwriad maleisus, gael eu cyfeirio i'r heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch cynnwys asiantaethau eraill neu beidio, dylech gyfeirio'r mater i'r heddlu.

Asesu'r risgiau

Gall amgylchiadau digwyddiadau amrywio'n fawr. Os penderfynwyd yn ystod y cam adolygu cychwynnol i beidio â chyfeirio'r mater i'r heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol, dylai'r DSP gynnal adolygiad arall (yn cynnwys cyfweliad â'r bobl ifanc o dan sylw) er mwyn sefydlu'r ffeithiau ac asesu'r risgiau.

Wrth asesu'r risgiau, dylid ystyried y canlynol:

- pam y rhannwyd y delweddau? A gymhellwyd y person ifanc neu a roddwyd y person ifanc o dan bwysau i gynhyrchu'r ddelwedd?
- pwy sydd wedi rhannu'r ddelwedd? Ym mhle y rhannwyd y ddelwedd? A oedd y disgybl yn y ddelwedd yn ymwybodol ei bod wedi ei rhannu a'i derbyn?
- a oes oedolion yn ymwneud â rhannu'r ddelwedd?
- beth yw'r effaith ar y bobl ifanc o dan sylw?
- a yw'r bobl ifanc o dan sylw yn agored i fwy o niwed?
- a yw'r person ifanc yn deall beth yw cydsynio?
- a yw'r person ifanc wedi cymryd rhan yn y math yma o weithgaredd o'r blaen?

Dylai DSP bob amser ddefnyddio eu barn broffesiynol mewn cydweithrediad â'u cydweithwyr er mwyn asesu'r digwyddiadau. Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o gwestiynau er mwyn ategu a chynorthwyo eu barn broffesiynol. Mae Atodiad B yn darparu mwy o wybodaeth ar ystyriaethau oedran ac ymddygiadau rhywiol niweidiol.

Astudiaeth achos A: Plant a phobl ifanc 13-18 oed

Pryder:

- Roedd dau blentyn, a'r ddau yn 15 oed, mewn perthynas yn ystod y mis diwethaf. Bu i'r bachgen ofyn i'r eneth am luniau "rhywiol" a bu iddi anfon un llun bronnoeth ato. Yn dilyn hynny roedd y ferch yn bryderus y byddai'r bachgen yn rhannu'r llun, felly rhannodd ei phryderon â'i ffrindiau. Yna dywedodd ei ffrindiau wrth eu tiwtor blwyddyn a siaradodd â'r DSP.

Ymateb yr ysgol:

- Bu i'r DSP siarad â'r eneth ac yna gyda'r bachgen. Bu i'r ddau ddisgybl gadarnhau na fu dim gweithgaredd rhywiol rhyngddynt. Nid oedd yna unrhyw bryderon mewn perthynas â diogelwch ynghylch y naill ddisgybl na'r llall. Nid oedd dim tystiolaeth bod y llun wedi cael ei rannu gan y bachgen a chynigodd ddileu'r ddelwedd oddi ar ei ddyfais.
- Siaradodd y DSP â'r ddau ddisgybl, a rhoddodd gyngor iddynt ar effaith bosibl tynnu a rhannu delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, yn droseddol ac emosiynol. Gweithiodd y DSP gyda'r ddau ddisgybl i'w helpu i benderfynu ar gynllun cytunedig ar gyfer hysbysu eu rhieni. Bu i DSP yr ysgol gofnodi'r digwyddiad yn ogystal â'r camau a gymerwyd yn y cofnodion diogelu.

Astudiaeth achos B: Plant o dan 13 oed

Pryder:

- Bu i athro dosbarth ganfod llun o blentyn noeth (bachgen, 11 oed) ar dabled yr ysgol. Dywedodd y plentyn ei fod wedi bod yn defnyddio'r tabled gyda dau blentyn arall yn ystod amser cinio, ac roeddent wedi ei herio i dynnu llun o'i ben ôl.

Ymateb yr ysgol:

- Nid oedd gan yr ysgol unrhyw bryderon diogelwch eraill ynghylch y plant na'u teuluoedd. Bu i DSP yr ysgol siarad â thîm diogelu addysg yr awdurdod lleol, ac yn dilyn hynny bu iddynt ddarllen canllawiau'r bwrdd diogelu mewn perthynas â gweithgaredd rhywiol dan oed. Bu i hyn ddangos bod yr ymddygiad yn debygol o fod yn amhriodol, ond nad oedd yn cyrraedd y trothwy er mwyn cyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Bu i'r DSP siarad â'r plant o dan sylw a'u rhieni, a rhoi cyngor iddynt ynghylch y sefyllfa a'r canlyniadau posibl yn cynnwys cyfeirio i'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Bu i'r plant gael eu sancsiynu yn yr ysgol am eu hymddygiad ac roedd y rhieni yn gwbl gefnogol o ymagwedd yr ysgol.
- Bu i'r holl aelodau staff dderbyn yr hyfforddiant diogelwch ar-lein diweddaraf, ac fe'u hatgoffwyd o bolisi diogelwch ar-lein a defnydd derbyniol yr ysgol er mwyn sicrhau nad oedd plant yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain gyda thabledi'r ysgol. Bu i'r ysgol gofnodi'r digwyddiad yn ogystal â'r camau a gymerwyd yn y cofnodion diogeluyn.

Hysbysu rhieni neu ofalwyr

Dylid hysbysu a chynnwys rhieni neu ofalwyr yn gynnar yn y broses oni bai y byddai hysbysu'r rhieni/gofalwyr yn golygu y byddai'r person ifanc yn wynebu risg o niwed. Yn gyffredinol, byddai unrhyw benderfyniad i beidio â'u hysbysu yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â gwasanaethau eraill megis gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu, fyddai'n arwain o ran penderfynu pryd y dylid hysbysu'r rhieni/gofalwyr.

Gall y DSP weithio gyda'r bobl ifanc o dan sylw er mwyn penderfynu ar yr ymagwedd orau o ran hysbysu rhieni/gofalwyr. Mewn rhai achosion gall y DSP weithio ar gynorthwyo'r bobl ifanc i hysbysu eu rhieni/gofalwyr eu hunain.

Mae Atodiad C yn cynnwys mwy o gyngor a gwybodaeth ar gynnwys rhieni a gofalwyr.

Adrodd digwyddiadau yn ôl i'r heddlu

Os bydd angen cyfeirio'r mater i'r heddlu, dylid cysylltu yn unol â'r trefniadau sy'n bodoli. Gall hynny fod drwy Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol neu drwy ffonio 101.

Ar ôl adrodd digwyddiad yn ôl i'r heddlu, mae'n rhaid ei gofnodi a bydd yr heddlu yn cynnal ymchwiliad. Gallai hynny gynnwys meddiannu dyfeisiau a chynnal cyfweliadau â'r bobl ifanc o dan sylw.

Pethau i fod yn ymwybodol ohonynt wrth adrodd digwyddiadau yn ôl i'r heddlu.

- Byddwch yn ymwybodol na all yr heddlu gynnig cyngor cyffredinol ar ddigwyddiadau. Os enwir y plant dan sylw neu os darperir manylion, mae'n ddyletswydd arnynt i gofnodi ac ymchwilio i bob gweithgaredd troseddol a adroddir yn ôl.
- Wrth adrodd digwyddiad yn ôl drwy'r gwasanaeth 101, byddwch yn ymwybodol bod y person sy'n ateb yr alwad yn rhywun sy'n delio â galwadau ac amrywiaeth eang o droseddau, ac efallai na fydd ganddo wybodaeth arbenigol yn y maes hwn. Sicrhewch bod unrhyw gyfeirnodau trosedd a ddarperir yn cael eu cofnodi.
- Mae Swyddogion Heddlu Cymunedol yr Ysgol yn gallu cynnig cymorth uniongyrchol i ysgolion ar atal, a chyngor ar reoli digwyddiadau.



Cysylltu a chyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol

Os bydd y DSP yn ymwybodol bod y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud ar hyn o bryd â pherson ifanc sydd wedi ei gysylltu â digwyddiad o ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, dylent gysylltu â swyddog dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol. Dylent hefyd gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol plant os ydynt yn credu eu bod wedi bod yn gysylltiedig, neu wedi bod yn gysylltiedig â pherson ifanc yn y gorffennol.

Os, o ganlyniad i ymchwiliad bod y DSP yn credu bod yna faterion ehangach yn bodoli sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer cynnwys y gwasanaethau cyhoeddus, dylent atgyfeirio yn unol â'u gweithdrefnau amddiffyn plant.

Dylai DSP sicrhau eu bod yn ymwybodol o, ac yn gyfarwydd ag unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol a phwyntiau/enwau cyswllt sydd ar gael ar gyfer cynorthwyo ysgolion o ran ymateb i ddelweddau a gynhyrchir gan bobl ifanc.

Os oes gan ardal leol Hyb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) gall hwnnw fod y man mwyaf priodol i ysgolion atgyfeirio iddo ar y cychwyn.

Gweld a dileu delweddau

Gweld y delweddau

Ni ddylai oedolion edrych ar ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan ieuenctid. Pryd bynnag fo hynny'n bosibl, dylai ymatebion i ddigwyddiadau fod yn seiliedig ar beth a ddywedwyd wrth y DSP am gynnwys y delweddau.

Os bydd delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc wedi cael eu gweld gan aelod staff, ac nad oedd modd osgoi hynny, naill ai'n dilyn datgeliad gan berson ifanc neu o ganlyniad i aelod staff yn ymgymryd â'i rôl ddyddiol (megis staff TG yn monitro systemau'r ysgol) dylai'r DSP sicrhau bod yr aelod staff hwnnw yn derbyn cymorth priodol. Gall gweld delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc fod yn brofiad trallodus i bobl ifanc ac oedolion ac efallai y bydd angen cymorth emosiynol priodol.

Dileu delweddau

Os yw'r ysgol wedi penderfynu nad yw asiantaethau eraill angen cael eu cynnwys a bod hynny'n rhesymol, dylid ystyried dileu delweddau oddi ar ddyfeisiau a gwasanaethau ar-lein, yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol, er mwyn atal y delweddau rhag cael eu rhannu ymhellach.

Argymhellir yn y rhan fwyaf o achosion y gofynnir i bobl ifanc ddileu delweddau ac i gadarnhau eu bod wedi dileu'r delweddau. Dylid rhoi terfyn amser i bobl ifanc ddileu delweddau ar eu holl ddyfeisiau, storfeydd ar-lein neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol.[16]

16 Efallai y bydd pobl ifanc angen cymorth wrth riportio delweddau i wasanaethau cyfryngau cymdeithasol. I gael cyngor a gwybodaeth ar riportio delweddau ar-lein, gweler Atodiad C.

Dylid atgoffa pobl bod meddu ar ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc yn anghyfreithlon. Dylid eu hysbysu os y byddant yn gwrthod neu y canfyddir yn ddiweddarach nad ydynt wedi dileu'r delweddau, eu bod yn cyflawni trosedd ac y gellir cyfeirio'r mater i'r heddlu. Mae angen cofnodi'r holl benderfyniadau hyn, yn cynnwys amseroedd, dyddiadau a rhesymau dros benderfyniadau a wneir a'u logio yn y cofnodion diogelu. Dylid cofnodi unrhyw ddatganiadau gan y bobl ifanc **yn eu geiriau eu hunain**. Dylid hefyd hysbysu rhieni a gofalwyr oni bai fod hynny yn achosi mwy o risg i'r person ifanc.

Ar y pwynt hwn, dylai ysgolion a cholegau gymryd eu camau eu hunain er mwyn cymell pobl ifanc i beidio â rhannu, creu neu dderbyn delweddau, ond mae hynny'n ddibynnol ar ddisgresiwn yr ysgol neu goleg a dylai hynny fod yn unol â'i bolisïau ymddygiad ei hun.

Cyfweld a siarad â'r person/pobl ifanc dan sylw

Ar ôl i ysgol asesu nad yw person ifanc yn wynebu risg uniongyrchol, efallai y bydd angen cael sgwrs gyda hwy a phenderfynu ar y camau gorau i'w cymryd. Os yn bosibl, dylai'r DSP gynnal y sgwrs honno. Fodd bynnag, os bydd y person ifanc yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad ag aelod arall o'r staff, dylid hwyluso hynny pan fo'n bosibl.

Wrth drafod rhannu delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, mae'n bwysig bod y DSP yn:

- Cydnabod y pwysau all fod ar bobl ifanc i gymryd rhan mewn rhannu delweddau o'r fath, ac os yn berthnasol, cynorthwyo rhieni'r person ifanc i ddeall y materion ehangach a'r cymhelliannau sy'n gysylltiedig â hyn.
- Parhau i ganolbwyntio ar ddatrysiad ac yn osgoi cwestiynau megis 'pam dy fod wedi gwneud hyn?' oherwydd gallai hynny atal y person ifanc rhag siarad am beth sydd wedi digwydd.
- Sicrhau'r person ifanc nad ydynt ar eu pennau eu hunain ac y bydd yr ysgol neu goleg yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w helpu a'u cynorthwyo.
- Helpu'r person ifanc i ddeall beth sydd wedi digwydd drwy drafod y pwysau ehangach maent yn ei deimlo efallai a chymhellion y person a rannodd y delweddau.
- Trafod materion cydsynio ac ymddiriedaeth mewn perthnasoedd iach. Egluro nad yw'n briodol i rywun wneud iddynt deimlo'n annifyr, i'w rhoi dan bwysau i wneud pethau nad ydynt eisiau eu gwneud, neu ddangos pethau iddynt y maent yn anhapus yn eu cylch. Gadael iddynt wybod y gallant siarad â'r DSP os bydd hynny fyth yn digwydd.

Pwrpas y sgwrs hon yw:

- Canfod, **heb edrych**, beth mae'r ddelwedd yn ei gynnwys, ac a oes unrhyw un arall yn gysylltiedig
- Canfod pwy sydd wedi gweld neu wedi rhannu'r ddelwedd a sut y gellir atal ei rhannu ymhellach.

Cofnodi digwyddiadau

Mae angen cofnodi yn yr ysgol neu goleg pob digwyddiad mewn perthynas â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau a atgyfeiriwyd i asiantaethau allanol a rhai na atgyfeiriwyd.

Wrth arolygu ysgolion mewn perthynas â diogelu a diogelwch ar-lein yn benodol, bydd Estyn yn gwerthuso:

- a yw'r ysgol wedi cynhyrchu hunanwerthusiad cyfredol sy'n cynnwys gweithgaredd e-ddiogelwch/diogelwch ar-lein yn ogystal ag agweddau diogelu ac amddiffyn plant eraill, ac i ba raddau mae'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella
- i ba raddau mae'r ysgol yn gweithredu ac yn monitro ei pholisïau a'i gweithdrefnau er mwyn gwella sut mae'n diogelu a hyrwyddo lles plant yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru a geir yn Cadw dysgwyr yn ddiogel
- a yw'r ysgol yn adrodd yn rheolaidd i uwch reolwyr a llywodraethwyr, ac i ba raddau mae'n defnyddio ei data a gwerthusiadau diogelu ynghylch digwyddiadau yn yr ysgol, yn cynnwys agweddau a digwyddiadau mewn perthynas ag e-ddiogelwch
- a yw holl aelodau staff yr ysgol yn deall yn iawn beth yw eu cyfrifoldebau a beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn amddiffyn disgyblion, ac a yw'r holl aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn a diogelu plant perthnasol, yn cynnwys dyletswyddau Prevent
- a yw'r holl gofnodion sy'n gysylltiedig â diogelu yn gyfredol, yn cynnwys digwyddiadau, atgyfeiriadau, recriwtio diogel a gwiriadau DBS, a hyfforddiant diogelu
- mae yna ddulliau cyson mewn perthynas â rheoli ac adrodd am ddigwyddiadau ynghylch diogelu a materion rheoli ymddygiad yn yr ysgol, ac mae hynny'n cael ei ategu gan bolisïau a gweithdrefnau clir, sy'n cynnwys rheoli digwyddiadau mewn perthynas â'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol
- trefniadau digonol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion ynghylch sut mae bod yn ddiogel yn cynnwys diogelwch ar-lein, sy'n cael eu cynnwys yn rheolaidd yng nghwricwlwm yr ysgol.

Mewn achosion sy'n gysylltiedig â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, mae'n bwysig bod ysgolion yn adlewyrchu'r holl feysydd uchod pan maent yn cofnodi digwyddiadau.

Hefyd, pan nad yw ysgolion yn cyfeirio digwyddiadau i'r heddlu neu wasanaethau cymdeithasol, dylent gofnodi eu rhesymau dros wneud hynny a sicrhau bod y Pennaeth yn llofnodi ei fod yn cymeradwyo hynny.

Adrodd yn ôl ar ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc ar-lein

Efallai bod angen help a chymorth ar bobl ifanc wrth ddileu delweddau oddi ar ddyfeisiau a chyfryngau cymdeithasol, yn arbennig os byddant yn anhapus. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr ar-lein yn cynnig cyfleuster adrood yn ôl i ddeiliaid cyfrifon, ac mae rhai yn cynnig cyfleuster adrodd yn ôl yn gyhoeddus er mwyn galluogi trydydd parti i adrodd yn ôl ar ran y person ifanc.

Mae Atodiad D yn amlinellu sut mae adrodd yn ôl i rai o'r prif ddarparwyr a beth i'w wneud pan nad oes gan safle gyfleuster adrodd yn ôl.

3 ADDYSGU POBL IFANC

Pam y dylem ddysgu pobl ifanc am ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc?

Gall dysgu am faterion diogelu yn y dosbarth atal niwed drwy roi sgiliau, rhinweddau a gwybodaeth i bobl ifanc er mwyn eu helpu i ddelio â risgiau. Mae ymdrin â materion sensitif yn hyrwyddo ymagwedd ysgol gyfan tuag at ddiogelu, gan roi lle i bobl ifanc archwilio materion allweddol a'r hyder iddynt geisio cymorth gan oedolion petaent yn wynebu problemau.

Mae *Cadw dysgwyr yn ddiogel* yn nodi y dylai'r gwasanaeth addysg 'ddatblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a chydnerthedd [mewn perthynas â diogelu] drwy'r cwricwlwm'. Yn unol â hyn, dylai ysgolion roi cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am fater delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc.

Sut ddylem ddysgu pobl ifanc am ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc?

Ni ellir dysgu am ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc ar ei ben ei hun.

O ystyried sensitifrwydd posibl y gwersi yma, mae'n hanfodol bod y mater hwn yn cael ei ddysgu mewn hinsawdd ystafell ddosbarth sy'n emosiynol ddiogel ble mae rheolau sylfaenol clir wedi cael eu trafod a'u sefydlu, a phan fo ffiniau mewn perthynas â chyfrinachedd athrawon wedi cael eu hegluro. Os, yn ystod unrhyw sesiwn, y bydd athro yn amau bod unrhyw blentyn neu berson ifanc yn agored i niwed neu risg, dylid dilyn protocolau diogelu'r ysgol bob amser.

Dylai ysgolion ystyried:

- Beth a ddysgir yn benodol yn y cwricwlwm ynglŷn â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc? Bydd hyn yn canolbwyntio ar wybodaeth ffeithiol a bydd yn cynnwys:
  - beth ydyw
  - beth yw'r ffordd fwyaf tebygol o ddod ar ei draws
  - canlyniadau gofyn am, rhannu neu ddarparu delweddau o'r fath, yn cynnwys pan fônt yn gamdriniol a phan nad ydynt
  - materion mewn perthynas â chyfreithlondeb
  - y risg o niweidio teimladau ac enw da pobl.

- Pa ddysgu penodol a ddarperir er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc y strategaethau a'r sgiliau i reoli:
  - ceisiadau penodol neu bwysau i ddarparu (neu rannu) delweddau o'r fath
  - derbyn delweddau o'r fath.

Bydd hyn yn cynnwys wrth pwy y dylid dweud; beth i'w ddweud; beth i'w wneud; beth na ddylid ei wneud ac o ble mae cael cymorth yn yr ysgol a thu allan.

Mae'n bwysig cydnabod pa mor anodd all hi fod i blant a phobl ifanc herio neu wadu ceisiadau gan eu cyfoedion am ddelweddau, yn arbennig gan rai sy'n ddeniadol iddynt neu rai maent yn ceisio cymeradwyaeth ganddynt. Hefyd, gall fod yn anodd iddynt ofyn i oedolion am help. Efallai bod pobl ifanc wedi gwneud penderfyniad y maent bellach yn ei ddifaru ac efallai eu bod yn cael anhawster gofyn am help, neu bod hynny'n achosi embaras iddynt. Mae'n hanfodol bod gwersi yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu'r hyder y byddant efallai ei angen i roi eu sgiliau a'u strategaethau ar waith.

Felly mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn deall polisi eu hysgol ynghylch delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc. Gellir archwilio cynnwys y polisi hwn a'r protocolau fydd yr ysgol yn eu dilyn yn achos digwyddiad fel rhan o'r dysgu hwn. Mae hyn yn atgyfnerthu natur amhriodol ymddygiadau camdriniol a gall roi sicrwydd i blant a phobl ifanc y bydd eu hysgol yn eu cynorthwyo os byddant yn cael anawsterau neu os bydd ganddynt bryderon.

- Pa *ddysgu amddiffynnol* tanategol a wneir gan gynllun addysg bersonol a Chymdeithasol ("ABCh") yr ysgol a'r cwricwlwm ehangach? Bydd hynny'n cynnwys gwaith ar:
  - gyfathrebu
  - deall perthnasoedd iach yn cynnwys ymddiriedaeth
  - deall a pharchu'r cysyniad o wir gydsynio
  - deall ein hawl (yn arbennig ein hawl ar y cyd i fod yn ddiogel a theimlo'n ddiogel)
  - adnabod iaith ac ymddygiadau gamdriniol ac ysgogol
  - derbyn ein cyfrifoldebau (yn arbennig ein cyfrifoldeb i barchu ymddiriedaeth pobl eraill ac amddiffyn eu hawl i fod yn gorfforol ac emosiynol ddiogel ac amddiffyn eu henw da).

Mae'r Fframwaith ABCh ar gyfer dysgwyr 7-19 oed yng Nghymru yn darparu canllaw i ysgolion ynghylch sut mae cynllunio a darparu rhaglenni ABaCh eang a chytbwys er mwyn bodloni anghenion penodol dysgwyr.

Pryd mae dysgu pobl ifanc am y materion yma?

Mae'n hanfodol bod y dysgu hwn yn briodol o ran oedran a pharodrwydd, a bod plant a phobl ifanc yn ystyried ei fod yn gytbwys a pherthnasol i'w profiadau o fywyd go iawn. Gall gweithio gyda phlant a phobl ifanc wrth gynllunio'r gwersi yma helpu ysgolion i sicrhau bod gwersi yn briodol a pherthnasol.

Dylai ysgolion ystyried sut y gellir ategu'r dysgu yma drwy ddarparu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (y Fframwaith), yn benodol, drwy'r elfen Ddinasyddiaeth. Cafodd y y Fframwaith ei gyflwyno ym mis Medi 2016.

Mae Dinasyddiaeth yn un o bedwar maes y Fframwaith. Mae'r maes yn canolbwyntio ar helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyfrannu'n

gadarnhaol i'r byd digidol o'u cwmpas. Bydd y sgiliau hyn yn helpu dysgwyr i werthuso'n feirniadol eu lle yn y byd digidol, fel eu bod yn barod i ddelio â'r agweddau cadarnhaol a negyddol sy'n rhan o fyd yn ddinesydd digidol.

Bwriad yr maes hwn yw arfogi dysgwyr i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol ac annibynnol ac yn gynhyrchwyr cynnyrch digidol yn y byd digidol sy'n newid yn gyflym.

Mae'r maes wedi ei rannu'n bedair elfen ar wahân:

- Hunaniaeth, delwedd ac enw da
- Iechyd a lles
- Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth
- Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae'r Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb yn darparu amrywiaeth o dwyieithog i blant, athrawon, rhieni a gofalwyr, gan gynnwys adnoddau mewn perthynas â secstio. **www.hwb.cymru.gov.uk/diogelwcharlein.**

Mwy o adnoddau ar gael yn Saesneg yn unig.

Adnodd	Sefydliad	Manylion	Ystod oedran	Ble mae cael gafael arnynt
Crossing the Line	Childnet International	Pecyn Addysg Bersonol, Gymdeithasol a Iechyd ymarferol ar gyfer ymarferwyr, sy'n cynnwys ffilmiau, cynlluniau gwersi a gweithgareddau. Mae'r ffilm am secstio a phwysau cyfoedion, 'Just send it', wedi cael tystysgrif 12 oed gan y BBFC.	11-14* *Rhai gweithgareddau ar gyfer CA2	www.childnet.com/pshetoolkit
Picture This	Childnet International	Pecyn addysgu sy'n cynnwys sgript chwarae 25 munud a chynlluniau gwersi.	14-18	http://www.childnet.com/resources/picture-this
Share Aware	NSPCC	Ffilm a chynlluniau gwersi wedi eu hanelu at blant iau, Cyfnodau Allweddol 1-2, sy'n delio â phwysigrwydd peidio â rhannu delweddau noeth.	5-11	https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/keeping-children-safe/share-aware/teaching-resources
Gwefan Childline Ap ChildLine Zip-It	ChildLine ChildLine	Mae gan wefan ChildLine wybodaeth ddefnyddiol am 'secstio', ellir ei defnyddio fel rhan o wersi. Mae Zipit yn rhoi atebion ffraeth i bobl ifanc y gallant eu defnyddio i dawelu sefyllfaoedd pan ofynnir iddynt anfon lluniau rhywiol.	Targed 11-14, ond hyd at 18 13+	https://childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/
Exposed	NCA-CEOP	Ffilm a chynllun gwers ategol sy'n archwilio canlyniadau rhannu delweddau rhywiol.	14+	https://www.thinkuknow.co.uk/14_plus/Films/Exposed/
Pecyn Thinkuknow	NCA-CEOP	Set o 15 o gynlluniau gwersi yn cynnwys gweithgaredd sy'n archwilio dylanwad y cyfryngau mewn perthynas â 'secstio'.	11+	https://www.thinkuknow.co.uk/professionals/resources/thinkuknow-toolkit/

Gwefan Thinkuknow	NCA-CEOP	Mae gwefan Thinkyouknow yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am 'secstio', ellir ei defnyddio fel rhan o wersi.	13-18	www.thinkuknow.co.uk
First to a Million	NCA-CEOP	Ffilm ryngweithiol a chynlluniau gwersi sy'n archwilio'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhannu fideos ar-lein.	13-18	https://www.thinkuknow.co.uk/14_plus/Films/FTAM/
Disrespect NoBody Discussion guide	Y Swyddfa Gartref	Adnodd addysgu sy'n ategu ymgyrch Disrespect NoBody y Llywodraeth sy'n amcanu at atal camdriniaeth mewn perthnasoedd glasoed.	13+	https://www.pshe-association.org.uk/curriculum-and-resources/resources/disrespect-nobody-teaching-resources-preventing
Tagged	Swyddfa Comisiynydd e-Ddiogelwch Commissioner (Australia)	Adnodd ffilm o Awstralia gyda chynlluniau gwersi a chyfweliadau fideo gyda chymeriadau allweddol.	14+	http://www.cybersmart.gov.au/tagged
Lockers	Webwise – Canolfan Rhyngrwyd Fwy Diogel Iwerddon	Animeiddiad a chwe chynllun gwers yn cynnwys gwersi ar bwysau cyfoedion, beio dioddefwyr a dylanwad y cyfryngau.	13+	http://www.webwise.ie/lockers/
Adolygiad o adnoddau	Llywodraeth Cymru	Mae'r pecyn, gwybodaeth a'r canllaw hwn yn rhoi i ddarparwyr addysg cynradd, uwchradd a phellach becyn o ddeunyddiau cymeradwyedig mewn perthynas â thrais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol.	5-18	http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/violence-teaching-resources?skip=1&lang=cy
NetAware	NSPCC O2	Canllaw ar y rhwydweithiau cymdeithasol a ddefnyddir gan blant	Pawb	https://www.net-aware.org.uk/
AGENDA	Prifysgol Cymru	Canllaw i bobl ifanc ar sicrhau bod perthnasoedd cadarnhaol yn bwysig.	Pawb	http://agenda.cymru/

Atodiad A

Wrth benderfynu cynnwys yr heddlu neu beidio a/neu wasanaethau cymdeithasol, dylid ystyried y cwestiynau canlynol. Bydd ateb y cwestiynau hyn yn cynorthwyo'r DSP wrth ystyried a yw person ifanc yn wynebu risg o niwed, ac os ydyw bydd atgyfeirio yn briodol, p'un a oes angen mwy o wybodaeth neu gymorth gan asiantaethau eraill neu a all yr ysgol reoli'r digwyddiad a chynorthwyo'r bobl ifanc yn uniongyrchol.

A oes gennych unrhyw bryderon am y ffaith bod y person ifanc yn agored i niwed?

Pam gofyn y cwestiwn hwn?
Dylid ystyried a yw amgylchiadau neu gefndir person ifanc yn golygu ei fod yn fwy agored i niwed. Gallai hynny gynnwys bod mewn gofal, bod ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd, bod yn ofalwr ifanc, neu fod wedi dioddef camdriniaeth. Pan fo pryderon ehangach am ofal a llesiant person ifanc, dylid ystyried atgyfeirio i wasanaethau cymdeithasol.

Pam y rhannwyd y delweddau? A wnaethpwyd hynny'n gydsyniol neu a roddwyd pwysau ar y person ifanc?

Pam gofyn y cwestiwn hwn?
Mae cymhelliannau pobl ifanc i rannu delweddau rhywiol yn cynnwys fflyrtan, meithrin ymddiriedaeth mewn perthynas ramantus, ceisio sylw neu gwneud hynny fel jôc. Er bod yna risgiau amlwg pan fo pobl ifanc yn rhannu delweddau'n gydsyniol, mae pobl ifanc sydd wedi cael eu rhoi dan bwysau i rannu delweddau yn fwy tebygol i adrodd am ganlyniadau negyddol. Dylid cyfeirio'r mater i'r heddlu os bydd person ifanc wedi cael ei roi dan bwysau i rannu delwedd, neu pan fo delwedd yn cael ei rhannu heb gydsyniad a gyda bwriad maleisus. Dylid cyfeirio'r mater i'r heddlu os bydd person ifanc wedi cael ei roi dan bwysau i rannu delwedd, neu pan fo delwedd yn cael ei rhannu heb gydsyniad a gyda bwriad maleisus. Hefyd dylid ystyried lefel aeddfedrwydd y person ifanc ac effaith unrhyw anghenion addysgol ychwanegol ar eu dealltwriaeth o'r sefyllfa. Dylech gymryd camau disgyblu yn erbyn disgyblion sy'n rhoi pwysau neu'n cymell eraill i rannu delweddau rhywiol. Os bydd hynny'n rhan o batrwm o ymddygiad, dylech ystyried atgyfeirio i'r Gwasanaeth Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, megis gwasanaeth Taith Barnardo's. Mae gan yr NSPCC wasanaeth o'r enw amddiffyn a pharchu[17] fydd ar gael yn fuan yn y 3 canolfan wasanaeth yng Nghymru.

17 https://www.nspcc.org.uk/services-and-resources/services-for-children-and-families/protect-and-respect/

A yw'r ddelwedd wedi cael ei rhannu'n fwy eang nag i'r un y bwriadwyd iddo ei derbyn? A rannwyd y ddelwedd heb gydsyniad y person ifanc a gynhyrchodd y ddelwedd?

Pam gofyn y cwestiwn hwn?

Efallai bod y ddelwedd wedi cael ei rhannu ar y cychwyn gyda chydsyniad, ond ei bod wedyn wedi cael ei rhannu ag eraill. Efallai bod disgybl wedi rhannu'r ddelwedd ymhellach gyda bwriad maleisus, neu efallai nad oedd yn deall yn iawn beth fyddai'r canlyniadau posibl.

Hefyd dylid ystyried lefel aeddfedrwydd y person ifanc ac effaith unrhyw anghenion addysgol arbennig ar eu dealltwriaeth o'r sefyllfa.

Dylid hysbysu'r heddlu os bwriadwyd achosi niwed drwy rannu'r ddelwedd neu os defnyddiwyd y ddelwedd er mwyn bwlio neu flacmelio disgybl.

A rannwyd y ddelwedd ar gyfryngau cymdeithasol neu'n unrhyw le arall ar-lein? Os digwyddodd hynny, pa gamau a gymerwyd i gyfyngu ar ledaenu'r ddelwedd?

Pam gofyn y cwestiwn hwn?

Os rhannwyd y ddelwedd yn eang ar gyfryngau cymdeithasol, gallai hynny achosi embaras sylweddol i'r disgybl a gallai effeithio'n hirdymor ar eu henw da ar-lein. Gallai hefyd gynyddu'r risg iddynt gael eu bwlio neu ddod i gysylltiad â dieithriaid ar-lein.

Dylech gynorthwyo person ifanc i adrodd yn ôl am ddelwedd i unrhyw safle sy'n ei dangos. Mae gwybodaeth am adrodd yn ôl ar gael yn Atodiad D.

Os yw'r person ifanc wedi ceisio adrodd yn ôl am ddelwedd ac nad yw wedi cael ei dynnu ymaith, dylent gysylltu â ChildLine sy'n gweithio mewn partneriaeth â Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd (IWF) er mwyn tynnu delweddau a gynhyrchir gan bobl ifanc oddi ar y rhyngrwyd, neu MEIC.[18] Mae MEIC yn wasanaeth llinell gymorth i bobl hyd at 25 oed yng Nghymru. Gallech hefyd gysylltu â Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol (POSH) i gael cyngor a chymorth.

Mae'r NSPCC ac O2 wedi sefydlu partneriaeth er mwyn cadw plant yn ddiogel ar-lein ac wedi sefydlu llinell gymorth benodol.[19] A oes gennych gwestiwn am reolaethau rhieni neu bryderon am rwydwaith gymdeithasol a ddefnyddir gan eich plentyn? Beth bynnag yw eich cwestiwn, mae cynghorwyr arbenigol yma i'ch helpu ar **0808 8005002.**

Os bydd dieithriaid sydd wedi gweld y ddelwedd yn cysylltu â pherson ifanc, dylech adrodd hynny yn ôl i NCA-CEOP.

18 https://www.meiccymru.org/cym/
19 https://www.nspcc.org.uk/what-we-do/about-us/partners/nspcc-o2-online-safety-partnership/

Beth yw oedran y person ifanc neu'r bobl ifanc dan sylw?

Pam gofyn y cwestiwn hwn?

Nid yw plant o dan 13 oed yn gallu cydsynio i weithgaredd rhywiol. Er mai 16 yw'r oedran cydsynio i unrhyw fath o weithgaredd rhywiol, mae Deddf Troseddau Rhywiol 2013 yn darparu gwarchodaeth ychwanegol rhag camdriniaeth rywiol i blant o dan 13 oed, oherwydd ni allant roi cydsyniad cyfreithiol i unrhyw fath o weithgaredd rhywiol. Dylid cyfeirio unrhyw ddelwedd sy'n cynnwys gweithgaredd rhywiol gan rywun o dan 13 oed i'r heddlu.

Gall fod yn hŷn roi pŵer i rywun mewn perthynas, felly os oes yna wahaniaeth oedran sylweddol, gall hynny fod yn arwydd bod y person ifanc wedi teimlo dan bwysau i gymryd y ddelwedd/fideo neu i'w rhannu.

Hefyd dylid ystyried lefel aeddfedrwydd y person ifanc ac effaith unrhyw anghenion addysgol arbennig ar eu dealltwriaeth o'r sefyllfa.

Os ydych yn credu bod y ddelwedd yn cynnwys gweithredoedd na fyddech yn disgwyl i berson ifanc o'r oedran hwnnw fod yn ymwneud â hwy, dylech gyfeirio'r mater i'r heddlu.

A fu i'r person ifanc anfon y ddelwedd i fwy nag un person?

Pam gofyn y cwestiwn hwn?

Os bydd disgybl yn rhannu delweddau rhywiol â nifer o bobl, gallai hynny fod yn arwydd bod ganddo broblemau y mae angen cymorth i'w datrys. Dylid ystyried eu cymhelliant i rannu'r delweddau.

Gall archwilio eu dealltwriaeth yn eich helpu i gynllunio ymateb priodol eich helpu i asesu, er enghraifft, a oeddent yn trosglwyddo llun gyda'r bwriad i niwed.

A yw'r person ifanc yn deall goblygiadau posibl rhannu'r ddelwedd?

Pam gofyn y cwestiwn hwn?

Gall pobl ifanc gynhyrchu neu rannu delweddau heb ddeall yn iawn beth yw canlyniadau'r hyn maent yn ei wneud. Efallai nad ydynt, er enghraifft, yn deall sut mae hynny yn achosi risg iddyn nhw eu hunain neu'n achosi niwed i berson ifanc arall. Hefyd, efallai nad ydynt yn deall beth yw cydsynio.

Gall archwilio eu dealltwriaeth eich helpu i gynllunio ymateb priodol, a'ch helpu i asesu, er enghraifft, a ydynt wedi rhannu delwedd yn fwriadol er mwyn achosi niwed.

A oes yna bryderon ychwanegol os hysbysir y rhieni neu'r gofalwyr?

Pam gofyn y cwestiwn hwn?

Dylid hysbysu'r /gofalwyr am ddigwyddiadau o'r natur hwn oni bai fod yna reswm da i gredu y gallai eu hysbysu achosi risg i'r person ifanc. Gallai hynny fod o ganlyniad i bryderon ynghylch camdriniaeth gan /gofalwyr neu ffactorau diwylliannol neu grefyddol allai effeithio ar sut y bydden nhw neu eu cymuned yn ymateb.

Os bydd person ifanc yn cyfeirio at bryderon ynghylch cynnwys eu /gofalwyr dylai'r DSP ddefnyddio ei farn broffesiynol ynghylch a yw'n briodol eu cynnwys, a phryd y dylid gwneud hynny. Os bydd ysgol yn dewis peidio â chynnwys rhieni, mae'n rhaid iddynt gofnodi'n glir beth yw'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.

Pan fo'n bosibl, dylid cynorthwyo pobl ifanc i siarad â'u /gofalwyr eu hunain am y pryderon.

Atodiad B

Ystyriaethau oedran

Wrth ystyried camau priodol mewn perthynas â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, bydd angen i'r Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant ystyried oedran y plant a'r bobl ifanc dan sylw, oherwydd bydd hynny yn dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir a gall hynny bennu'r camau mwyaf priodol sydd angen eu cymryd.

Plant iau

Mae plant o dan 13 oed yn cael gwarchodaeth ychwanegol rhag camdriniaeth rywiol o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae'r ddeddf hon yn egluro nad yw gweithgaredd rhywiol â phlentyn o dan 13 oed fyth yn dderbyniol, ac na all plant yr oedran yma fyth roi cydsyniad cyfreithiol i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol. Mae hyn yn gymwys i blant sydd heb gael eu pen-blwydd yn 13 oed h.y. plant 12 oed ac iau.

Mae'n rhaid trin yn ddifrifol unrhyw sefyllfa sy'n ymwneud â phlant o dan 13 oed a delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc oherwydd gallant fod yn arwydd o bryder ehangach mewn perthynas â diogelu neu amddiffyn plant, neu o ymddygiad rhywiol problemus.

Mae'n debygol bod oedran a gallu'r plant dan sylw yn dylanwadu ar ddealltwriaeth plant a phobl ifanc ynghylch goblygiadau posibl cymryd a/neu rannu delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc. Mewn rhai achosion gall plant o dan 13 oed (a hŷn hefyd) greu delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc o ganlyniad i chwilfrydedd sy'n briodol i'w hoedran neu ymddygiad mentrus neu'n syml oherwydd anwybodaeth yn hytrach nag unrhyw fwriad rhywiol. Dyma'r ymddygiad sy'n fwy tebygol o gael ei ganfod yn gyffredinol mewn ysgolion cynradd. Gallai rhai enghreifftiau cyffredin gynnwys anfon lluniau o'u horganau rhywiol i'w ffrindiau fel her, neu dynnu llun o blentyn arall wrth iddo newid ar gyfer gwers Ymarfer Corff. Yn y cyd-destun hwn mae'n annhebygol bod angen cynnwys y wasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu ac nad yw hynny'n gymesurol, ond bydd angen i'r DSP ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth ystyried y cyd-destun penodol a'r plant dan sylw.

Ymddygiad rhywiol

Bydd angen i'r DSP fod yn ymwybodol y gall ymddygiad nad yw efallai'n ymddangos fel ymddygiad â chymhelliad rhywiol ar y cychwyn fod wedi digwydd o ganlyniad i ymddygiad mentrus neu niweidiol neu o ganlyniad i 'normaleiddio' camdriniaeth rhywiol mewn perthynas â phlant.

Mae anawsterau wrth geisio adnabod ymddygiadau rhywiol niweidiol ymysg plant a phobl ifanc yn cael eu gwaethygu gan ddiffyg gwybodaeth cyffredinol am rywioldeb plentyndod a beth yw datblygiad rhywiol normal. Mae continuum plant Hackett (2012) (Ffigur 1) ac ymddygiadau rhywiol pobl ifanc yn dangos sut mae ymddygiadau'n bodoli ar gontinuum o normal i annormal iawn.

Continwwm o ymddygiadau

Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn gwahaniaethu rhwng ymddygiadau rhywiol normal ac annormal. Mae Chaffin et al (2002, t208) yn awgrymu y byddid yn ystyried bod ymddygiad rhywiol plentyn yn annormal os yw'n:

- digwydd yn amlach na fyddai'n ddatblygiadol ddisgwyliedig
- ymyrryd â datblygiad y plentyn
- digwydd drwy orfodaeth, bygythiad neu rym
- cysylltiedig â straen emosiynol
- digwydd rhwng plant o wahanol oedrannau neu alluoedd datblygiadol
- digwydd dro ar ôl tro yn gyfrinachol yn dilyn ymyrraeth gan rai sy'n rhoi gofal

Mae Hacket (2010) wedi cynnig model continwwm er mwyn dangos yr ystod o ymddygiadau rhywiol y mae plant a phobl ifanc yn eu harddangos, o'r rhai sy'n normal, i'r rhai sy'n wyrdroëdig iawn.

Normal	Amhriodol	Problemus	Camdriniol	Treisgar
• Datblygiadol ddisgwyliedig • Cymdeithasol dderbyniol • Cydsyniol, dwyochrog, gan y naill a'r llall • Penderfyniad ar y cyd	• Achosion unigol o ymddygiad rhywiol amhriodol • Ymddygiad cymdeithasol dderbyniol o fewn grŵp cyfoedion • Efallai bod cyd-destun yr ymddygiad yn amhriodol • Cyffredinol gydsyniol a dwyochrog	• Ymddygiadau problemus sy'n achosi pryder • Datblygiadol anarferol a chymdeithasol annisgwyl • Dim elfennau amlwg o erledigaeth • Efallai bod y cydsynio'n aneglur • Diffyg dwyochredd neu rym cyfartal efallai • Efallai'n cynnwys lefelau o fyrbwylltra	• Bwriad i erlid neu erledigaeth yn deillio ohono • Yn cynnwys camddefnyddio pŵer • Gorfodaeth a grym i sicrhau bod y dioddefwr yn cydsynio • Ymyrrol • Diffyg cydsyniad ar sail gwybodaeth, neu'r dioddefwr yn methu rhoi cydsyniad o wirfodd • Gall gynnwys elfennau o drais mynegiannol	• Corfforol dreisgar • Ymyrrol iawn • Trais cyfryngol sy'n cyffroi'r cyflawnydd yn seicolegol a/neu'n rhywiol • Sadistiaeth

Ffigur 1: Continuum ymddygiadau Hackett[20]

Mae'n rhaid i'r DSP sicrhau eu bod yn gyfarwydd â, a'u bod yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau lleol perthnasol (yn cynnwys cysylltiad ag awdurdodau lleol neu Fyrddau Diogelu Plant) sydd ar gael ar gyfer adnabod ac ymateb i ymddygiadau niweidiol a/neu weithgaredd rhywiol dan oed wrth ddelio â phlant o dan 13 oed sydd efallai wedi bod yn ymwneud â chreu neu rannu delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc. Mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod plant sy'n ymwneud â hyn neu a glustnodir yn cael eu diogelu ac nad ydynt yn cael eu troseddoli neu eu labelu yn ddiangen.

Mae'r offer ychwanegol ar gyfer cynorthwyo'r DSP yn cynnwys:

- Offeryn Goleuadau Traffig Ymddygiadau Rhywiol Brook:
  - https://www.brook.org.uk/our-work/the-sexual-behaviours-traffic-light-tool
- Taflenni Lucy Faithfull/Parent's Protect i rieni:
  - https://www.parentsprotect.co.uk/resources.htm
- Canllawiau ar Secstio yr NSPCC i Weithwyr Proffesiynol:
  - https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/keeping-children-safe/sexting/

20 O Fframwaith Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol yr NSPCC www.nspcc.org.uk/services-and-resources/research-and-resources/2016/harmful-sexual-behaviour-framework

Atodiad C

Gweithio gyda rhieni a gofalwyr

Mae angen hysbysu rhieni a gofalwyr a'u cynorthwyo i ymateb yn briodol i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, ac mae'n allweddol eu bod yn cael help i chwarae eu rhan wrth helpu i hysbysu plant am y risgiau.

Dylai gwybodaeth i rieni/gofalwyr am ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc fod yn rhan o strategaeth ehangach o ymgysylltu â rhieni mewn perthynas â diogelwch ar-lein. Dylai gwybodaeth i rieni ynglŷn â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc fod yn glir, yn hawdd ei ddeall a dylai adlewyrchu anghenion rhieni a gofalwyr eich ysgol. Dylai eu helpu i siarad gyda'u plant am ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc ac ymateb yn briodol petai eu plant yn gysylltiedig â digwyddiad.

Gallai adnoddau i rieni a gofalwyr gynnwys:

- Trosolwg o beth yw 'secstio', gan amlygu'n benodol ei fod yn cynnwys anfon delweddau a fideos
- Y pwysau, cymhellion a'r disgwyliadau sy'n wynebu pobl ifanc mewn perthynas ag ymddwyn yn rhywiol
- Gwybodaeth am gydsynio ac ymddiriedaeth mewn perthnasoedd iach
- Cyngor ar sut i gael trafodaethau gyda phlant am secstio
- Gwybodaeth am pa mor aml mae hyn yn digwydd - dangos bod y niferoedd yn isel ond amlygu pa mor agored i niwed yw'r rhai sy'n rhannu delweddau, yn arbennig gyda dieithriaid
- Eglurhad o beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, yn arbennig cydnabod pryderon/ofnau pobl ifanc
- Cyfreithlondeb secstio a lluniau neu fideos noeth
- Cyngor ar sut all rhieni a gofalwyr gynorthwyo eu plant os bydd eu delweddau wedi eu rhannu'n gyhoeddus - cyfeirio at asiantaethau a gwybodaeth/adnoddau perthnasol
- Beth all rhieni a gofalwyr ei wneud i helpu i ddileu delweddau/grymuso pobl ifanc - gweler Atodiad D
- Rôl yr heddlu ac ysgolion mewn perthynas â digwyddiadau - cyfeirio at rolau penodol ym mhob sefydliad er mwyn grymuso rhieni/gofalwyr fel eu bod yn gwybod eu bod yn siarad â'r person 'priodol'.

Helpu rhieni a gofalwyr pan fo'u plentyn wedi bod yn ymwneud â secstio
Gall pobl ifanc ymwneud â secstio mewn nifer o wahanol ffyrdd: gallant golli rheolaeth ar eu delweddau hunain; derbyn delwedd o rywun arall; neu rannu delwedd o berson arall. Gall fod yn anodd i'r bobl hynny y mae eu plant wedi profi unrhyw un o'r sefyllfaoedd yma wybod sut mae delio â'r wybodaeth bod eu plentyn wedi bod yn ymwneud â gweithgaredd rhywioledig. Gall rheini a gofalwyr deimlo sioc, yn drist, blin, dryslyd neu siomedig.

Beth bynnag fo'u teimladau, mae'n bwysig bod pobl broffesiynol yn gwrando ar eu pryderon ac yn eu trin o ddifri. Hefyd, gall fod yn fuddiol i athrawon a'r heddlu roi sicrwydd i rieni a gofalwyr drwy egluro ei bod yn normal i bobl ifanc fod yn chwilfrydig ynghylch rhyw. Isod ceir enghreifftiau o'r cyngor y gall yr heddlu ac ysgolion ei gynnig mewn amryw o senarios.

Dylai rhieni neu ofalwyr plentyn sydd wedi colli rheolaeth ar ddelwedd rywiol:

- Dderbyn cyngor ar y gyfraith mewn perthynas â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc.
- Dylid rhoi cyfarwyddyd iddynt annog y person ifanc i ddileu'r delweddau oddi ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, os yw'r plentyn wedi eu lanlwytho nhw ei hun.

- Dylid eu cyfeirio i bartneriaeth ChildLine a Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd er mwyn gweld a yw hi'n bosibl dileu'r ddelwedd os ydyw wedi cael ei rhannu'n ehangach. Mae'n rhaid gwneud hynny mor fuan â phosibl er mwyn lleihau nifer y bobl sydd wedi gweld y llun. Hefyd, dylid hysbysu rhieni/gofalwyr ynghylch sut mae adrodd yn ôl am ddelweddau rhywiol ar safleoedd unigol er mwyn sicrhwu eu bod yn cael eu dileu. Os bydd delwedd wedi cael ei rhannu drwy gyfrwng ffôn symudol, dylid eu hysbysu y gallant gysylltu â'r gweithredwr ffonau symudol er mwyn newid rhif ffôn eu plentyn.
- Dylid eu helpu i gael sgyrsiau gyda'u plentyn all fod yn rhai anodd. Efallai y bydd rhieni a gofalwyr angen help i siapio'r sgyrsiau hyn. Er enghraifft, gallech awgrymu eu bod yn:
  - Sicrhau'r person ifanc nad ydynt ar eu pennau eu hunain, a pheidio â gwylltio, a rhoi gwybod iddynt y byddant yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu.
  - Gwrando a chynnig cymorth.
  - Osgoi cwestiynau megis 'pam dy fod wedi gwneud hyn?' all atal y person ifanc rhag siarad am y mater. Yn hytrach, dylent ganolbwyntio ar ganfod datrysiad, drwy ofyn i bwy yr anfonwyd y ddelwedd, a chytuno ar y camau nesaf.
  - Helpu eu plentyn i ddeall beth sydd wedi digwydd drwy drafod y pwysau ehangach maent yn ei deimlo efallai a chymhellion y person a rannodd y llun.
  - Trafod materion cydsynio ac ymddiriedaeth mewn perthnasoedd iach. Egluro nad yw'n briodol i rywun wneud iddynt deimlo'n annifyr, i'w rhoi dan bwysau i wneud pethau nad ydynt eisiau eu gwneud, neu ddangos pethau iddynt y maent yn anhapus yn eu cylch. Dylai rhieni/gofalwyr adael i'w plant wybod y gallant siarad â nhw os bydd hynny fyth yn digwydd.
- Eu cyfeirio i ysgol y plentyn os ydynt yn bryderus bod eu plentyn yn cael ei fwlio.
- Eu cyfeirio i wasanaethau Ymddygiad Rhywiol Niweidiol megis gwasanaeth Taith Barnardo's os yn briodol, neu os bu digwyddiadau tebyg yn y gorffennol.

Dylai rhieni neu ofalwyr plentyn sydd wedi derbyn delwedd rywiol:

- Dderbyn cyngor ar y gyfraith ynglŷn â secstio mewn perthynas â chadw, rhannu neu edrych ar ddelweddau noeth neu rywiol o blant.
- Dylid eu cynorthwyo i gael sgyrsiau â'u plant a'u cynghori i:
  - Sicrhau'r person ifanc ei fod wedi gwneud y peth iawn drwy siarad, a'ch bod yna i helpu.
  - Egluro pwysigrwydd peidio rhannu'r ddelwedd ymhellach i'r person ifanc.
  - Gwrando ar bryderon y person ifanc, heb feirniadu ei benderfyniadau.
  - Gofyn a ofynnodd am y llun a neu a ddigwyddodd hynny heb ofyn amdano. Cadarnhau a anfonwyd y llun gan oedolyn neu berson ifanc.
  - Trafod materion cydsynio ac ymddiriedaeth mewn perthnasoedd iach. Egluro nad yw'n briodol i rywun wneud iddynt deimlo'n annifyr, i'w rhoi dan bwysau i wneud pethau nad ydynt eisiau eu gwneud, neu ddangos pethau iddynt y maent yn anhapus yn eu cylch. Gadael iddynt wybod y gallant siarad â chi os bydd hynny fyth yn digwydd.
  - Os bu iddynt ofyn am y llun, eglurwch na ddylent roi pwysau ar bobl eraill i wneud pethau nad ydynt yn gyfforddus yn eu gwneud.
- Awgrymu ffyrdd y gallai eu plentyn siarad â'r un a anfonodd y llun er mwyn stopio cyfathrebiadau yn y dyfodol. Neu, os byddai'n well gan y person ifanc, rhoi gwybod iddo sut mae blocio'r person a anfonodd y llun.
- Eu cyfeirio i'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol, Rheoli CEOP (NCA-CEOP) os cafodd y delweddau eu rhannu gan oedolyn, os bydd oedolion yn cysylltu â'r plentyn a'u bod yn bryderus am ecsbloetio neu feithrin rhywiol.

Dylai rhieni neu ofalwyr plentyn sydd wedi rhannu delwedd plentyn arall:

- Dderbyn cyngor ar y gyfraith ynglŷn â secstio mewn perthynas â chadw, rhannu neu edrych ar ddelweddau noeth neu rywiol o blant.
- Dylid eu cynorthwyo i gael sgyrsiau â'u plant a'u cynghori i:
  - Beidio â chynhyrfu, a pheidio â gwylltio â'r person ifanc.

- Gofyn i bwy yr anfonwyd y ddelwedd ac ym mhle mae wedi cael ei rhannu. Cytuno ar y camau nesaf er mwyn dileu'r ddelwedd, yn cynnwys dileu'r ddelwedd oddi ar eu ffôn neu unrhyw gyfrif cyfrwng cymdeithasol a'i adrodd yn ôl i ddarparwyr gwasanaethau.
- Canfod a ofynnodd y plentyn am y llun neu a dderbyniwyd y llun ar y cychwyn heb ofyn amdano.
- Trafod materion cydsynio ac ymddiriedaeth mewn perthnasoedd iach neu gyfeillgarwch. Siarad am y math o bethau sy'n briodol ac yn amhriodol i'w rhannu, a sut y bydden nhw'n teimlo petai rhywun yn rhannu llun personol ohonynt nhw. Os bydd y plentyn wedi gofyn am y llun, eglurwch bwysigrwydd peidio â phwyso ar eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn dymuno bod yn rhan ohonynt.
- Holi beth oedd eu cymhellion i rannu'r llun a thrafod beth allant fod wedi ei wneud yn wahanol. Os ydynt wedi ymateb i ddigwyddiad trallodus, megis tor perthynas, drwy rannu'r llun, siaradwch am sut ellid fod wedi rheoli eu teimladau mewn ffordd iachach a mwy cadarnhaol.

- Eu cynghori i gysylltu ag ysgol y plentyn os ydynt yn bryderus bod eu plentyn yn ymddwyn mewn ffordd amhriodol o rywiol. Dylid eu cyfeirio i wasanaethau Ymddygiad Rhywiol Niweidiol megis gwasanaeth Taith Barnardo's os yn briodol, neu os bu digwyddiadau tebyg yn y gorffennol.

Dylai pob rhiant neu ofalwr plentyn sydd wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r uchod:

- Dderbyn cymorth er mwyn gallu delio â'u teimladau eu hunain o drallod a phryder.
- Eu diweddaru am unrhyw gamau a gymerwyd neu unrhyw gymorth a roddir i'w plentyn oni bai fod y plentyn dan sylw wedi gofyn yn benodol am i hynny beidio â digwydd ac y bernir ei fod yn ddigon hen i wneud y penderfyniad hwnnw ar sail gwybodaeth.
- Eu cynghori i gysylltu ag ysgol y plentyn, os ydynt wedi derbyn cydsyniad eu plentyn, fel y gall athrawon gynnig cymorth i unrhyw fyfyriwr yr effeithir arno a sicrhau nad yw'r ddelwedd yn cael ei rhannu ymhellach.
- Eu hysbysu am ffynonellau cymorth i'w plentyn, rhag ofn eu bod yn teimlo'n anniddig neu'n isel ynghylch beth sydd wedi digwydd. Gallai hynny gynnwys siarad â chynghorydd ChildLine, NSPCC, Llinell Gymorth O2, gwasanaethau cwnsela mewnol ble mae hynny ar gael, neu feddyg teulu. Os ydynt yn pryderu bod eu plentyn yn ystyried hunanladdiad, dylent ffonio 999.
- Rhoi gwybodaeth iddynt ar ble maent yn gallu cael mynediad i gymorth eu hunain os ydynt yn pryderu neu'n poeni.
- Eu cyfeirio i NCA-CEOP os ydynt yn pryderu am ecsbloetio neu feithrin rhywiol.

Adnoddau a chymorth

Yn ychwanegol at unrhyw adnoddau Bwrdd Diogelu Plant Lleol, gellir defnyddio'r adnoddau canlynol er mwyn cynorthwyo rhieni/gofalwyr a phlant mewn perthynas â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, a gellir eu cynnwys ar wefannau ysgolion a cholegau:

Llinellau cymorth ac adrodd yn ôl

Gall plant siarad â chynghorydd ChildLine 24 awr y dydd ynglŷn ag unrhyw beth sydd yn eu poeni, drwy ffonio 0800 11 11 neu mewn sgwrs ar-lein yn http://www.childline.org.uk/Talk/Chat/Pages/OnlineChat.aspx

- Os bydd rhieni neu ofalwyr yn pryderu bod oedolion yn cysylltu â'u plentyn o ganlyniad i rannu delweddau rhywiol, dylent adrodd hynny yn ôl i NCA-CEOP yn www.ceop.police.uk/safety-centre
- Mae ChildLine a Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd wedi partneru er mwyn helpu plant ddileu delweddau noeth neu rywiol oddi ar y rhyngrwyd. Gall pobl ifanc drefnu i ddileu eu llun drwy siarad â chynghorydd ChildLine. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn http://www.childline.org.uk/explore/onlinesafety/pages/sexting.aspx
- Os bydd rhieni neu ofalwyr yn bryderus am eu plentyn, gallant gysylltu â Llinell Gymorth NSPCC Cymru drwy ffonio **0808 800 5000,** e-bostio help@nspcc.org.uk, neu decstio 88858.

- Meic yw'r llinell gymorth eirioli, gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc yng Nghymru o 0 i 25 oed. Gall pobl ifanc ddefnyddio'r gwasanaeth cyfrinachol ac am ddim yma drwy ffonio (080880 23456), tecstio (84001), anfon gwibneges (www.meiccymru.org) neu e-bost https://www.meiccymru.org/cym/
- Llinell Gymorth Byw Heb Ofn 0808 8010 800 – llinell gymorth 24 awr i bobl sydd wedi neu yn dioddef camdriniaeth ddomestig neu drais rhywiol, neu sy'n pryderu am ffrind neu berthynas.
- Gwefan Byw Heb Ofn i gael cyngor ar gamdriniaeth ddomestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched http://livefearfree.gov.wales/?skip=1&lang=cy

Cyngor a gwybodaeth i rieni/gofalwyr

- Mae gan yr NSPCC wybodaeth a chyngor ynghylch secstio ar ei wefan: https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/keeping-children-safe/sexting/
- Mae NCA-CEOP wedi cynhyrchu adnodd ffilm ar gyfer rhieni a gofalwyr er mwyn eu helpu i atal eu plant rhag dioddef niwed drwy rannu delweddau rhywiol: https://www.thinkuknow.co.uk/parents/articles/Nude-selfies-a-parents-guide/
- Mae gan Childnet wybodaeth a chyngor ynghylch secstio ar ei wefan: http://www.childnet.com/parents-and-carers/hot-topics/sexting
- SchoolBeat http://www.schoolbeat.org/cy/ – Mae gwefan Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn darparu amrywiaeth o adnoddau a gwybodaeth ar ddiogelu, ac mae'n cynnwys secstio.
- Mae Parent Info (www.parentinfo.org) yn darparu gwybodaeth a chyngor i rieni gan sefydliadau arbenigol ar destunau sy'n amrywio o ryw a pherthnasoedd, iechyd meddwl a diogelwch ar-lein. Mae hyn yn cynnwys cydsynio mewn perthynas â secstio. Gellir gwesteio cynnwys Parent Info am ddim ar wefan ysgolion drwy gyfrwng gwasanaeth ffrwd newyddion.
- Mae canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU wedi cynhyrchu rhestr wirio i rieni mewn perthynas â defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol yn ddiogel - www.saferinternet.org.uk/checklists

Adnoddau y gallai rhieni/gofalwyr gyfeirio eu plant atynt

- Mae ChildLine wedi creu Zip-it, sef ap sy'n cynnig atebion ffraeth er mwyn helpu person ifanc i ddweud na i geisiadau am ddelweddau noeth - https://www.childline.org.uk/Play/GetInvolved/Pages/sexting-zipit-app.aspx
- Ceir gwybodaeth ar wefan ChildLine i bobl ifanc ynghylch secstio: https://childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/
- Mae'r Ganolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel wedi creu adnoddau o'r enw 'So You Got Naked Online' sy'n helpu pobl i ddelio â digwyddiadau o secstio - http://childnetsic.s3.amazonaws.com/ufiles/Files%202015/SYGNO%20Booklet%20-%20version%202%20May%202015.pdf
- Adnodd AGENDA - Canllaw i bobl ifanc ar sicrhau bod perthnasoedd cadarnhaol yn bwysig https://www.nspcc.org.uk/services-and-resources/research-and-resources/2016/agenda-young-peoples-guide-positive-relationships
- http://www.schoolbeat.org/cy/ – amrywiaeth o adnoddau, gweithgareddau a chyngor ar berthnasoedd iach.

Atodiad D

Adrodd yn ôl am ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc ar-lein

- Y ffordd gyflymaf o dynnu cynnwys oddi ar y rhyngrwyd yw i'r person â'i postiodd ei dynnu i lawr. Os bu i'r person ifanc bostio'r cynnwys eu hunain gan ddefnyddio eu cyfrif, dylid gofyn iddo fewngofnodi a'i ddileu.
- Os bu i rywun arall bostio'r ddelwedd neu ailbostio'r ddelwedd, dylid gofyn iddo fewngofnodi a'i dileu oddi ar unrhyw safleoedd maent wedi ei phostio arnynt.
- Os yw'r ysgol yn gwybod ble mae'r cynnwys yn cael ei westeio ond nad yw'n gwybod pwy â'i postiodd, neu bod y sawl a'i postiodd yn gwrthod ei dileu, gellir adrodd yn ôl y cynnwys i wasanaeth ar-lein. Os bydd yn torri Telerau Gwasanaeth y safle, bydd yn cael ei ddileu.

Bydd gan bob darparwr ymagwedd wahanol tuag at ddelio â cheisiadau i ddileu cynnwys a bydd cyflymder yr ymateb yn amrywio. Gellir cael mwy o wybodaeth ar wefannau darparwyr unigol ble dylent fod yn cyhoeddi eu Telerau Gwasanaeth a'r broses adrodd yn ôl. Nid yw'r rhan fwyaf o'r prif ddarparwyr yn caniatáu cynnwys noeth neu rywiol. Mae delweddau rhywiol o blant yn anghyfreithlon, ac ni ddylai unrhyw ddarparwyr eu gwesteio.

Mae'r canlynol yn drosolwg o'r cyfleusterau adrodd yn ôl a ddarperir gan y prif ddarparwyr gwasanaethau:

Snapchat
Mae Snapchat yn galluogi defnyddwyr i rannu delweddau/fideos, y mae'n eu galw yn 'snaps'. Mae'r snap yn cael ei rannu ac yna mae'n diflannu ar ôl ychydig eiliadau. Mae Snapchat hefyd yn caniatáu i ddefnyddwyr rannu Straeon Snapchat: mae'r rhain yn snaps a rennir mewn dilyniant dros gyfnod o 24 awr.

Mae Snapchat yn darparu cyfleuster adrodd yn ôl yma: https://www.snapchat.com/safety

Mae defnyddwyr yn gallu blocio defnyddwyr eraill.

WhatsApp
Mae WhatsApp yn wasanaeth negeseuon sy'n galluogi defnyddwyr i rannu lluniau, negeseuon testun neu fideos. Gellir rhannu'r rhain ag un person neu ddefnyddwyr lluosog.

Mae WhatsApp yn annog defnyddwyr i adrodd yn ôl cynnwys problemus, fodd bynnag, maent yn dweud nad yw cynnwys negeseuon ar gael iddynt yn gyffredinol. Gall hynny gyfyngu ar eu gallu i ddilysu'r hyn a adrodd yn ôl ac i gymryd camau.

Gweler y cyfarwyddiadau ar sut mae adrodd yn ôl yma: https://www.whatsapp.com/faq/en/general/21197244

Mae defnyddwyr yn gallu blocio defnyddwyr eraill yma: https://www.whatsapp.com/faq/en/s60/21064391

Instagram
Mae Instagram yn ap rhannu lluniau a fideos sy'n galluogi defnyddwyr i rannu delweddau, rhoi sylwadau a phostio negeseuon.

Mae Instagram yn darparu cyfleuster adrodd yn ôl yma: https://help.instagram.com/443165679053819/

Mae defnyddwyr yn gallu blocio defnyddwyr eraill.

Facebook
Mae Facebook yn rhwydwaith cymdeithasol sy'n galluogi defnyddwyr i greu proffil, rhannu delweddau, fideos a negeseuon.

Mae Facebook yn darparu cyfleuster adrodd yn ôl yma:

- Adrodd yn ôl yn gymdeithasol - https://www.facebook.com/help/128548343894719

Mae hyn yn galluogi defnyddwyr i gysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr eraill i ofyn iddynt dynnu rhywbeth i lawr nad yw o reidrwydd yn torri telerau gwasanaeth Facebook. Mewn rhai achosion efallai na fydd y person ifanc yn teimlo'n gyfforddus wrth gysylltu'n uniongyrchol â'r person, felly gall ddefnyddio'r llif adrodd yn ôl er mwyn galluogi person arall a ymddiriedir ynddo i'w helpu - e.e. athro, ffrind, rhiant/gofalwr.

- Adrodd yn ôl yn gyhoeddus - https://www.facebook.com/help/263149623790594/

Gall defnyddwyr nad oes ganddynt gyfrif Facebook adrodd yn ôl yn uniongyrchol i Facebook gan ddefnyddio'r ddolen uchod a llenwi'r ffurflen.

Mae defnyddwyr yn gallu blocio defnyddwyr eraill.

YouTube
Mae YouTube yn galluogi defnyddwyr i wylio, creu a rhannu fideos. Gall defnyddwyr greu eu cyfrif YouTube eu hunain, creu rhestrau chwarae a chreu eu sianel eu hunain. Hefyd, gall defnyddwyr roi sylwadau ar sianelau defnyddwyr eraill.

Mae YouTube yn darparu cyfleuster adrodd yn ôl yma: https://support.google.com/youtube/answer/2802027

Gall defnyddwyr adrodd yn ôl am fideo unigol, sianel neu sylwad ar fideo. Dim ond deiliaid cyfrifon all adrodd yn ôl i YouTube.

Google
Mae dyfarniad "hawl i gael eich anghofio" yn galluogi'r cyhoedd i ofyn am ddileu canlyniadau chwiliadau maent yn credu sy'n ddolenni i wybodaeth hen neu amherthnasol amdanynt eu hunain, ac mae hynny'n cael ei weithredu fesul gwlad. Mae defnyddwyr yn gallu llenwi ffurflen er mwyn amlygu pa gynnwys maent yn dymuno ei ddileu. Mae'n rhaid i ddefnyddwyr nodi pan fod y cynnwys yn gymwys iddyn nhw a pham ei fod yn anghyfreithlon, felly mae angen cyfeirio at yr union URL sy'n gysylltiedig â'r canlyniadau chwilio. Gweler https://support.google.com/legal/contact/lr_eudpa?product=websearch

Mae rhestr o nifer o ddarparwyr eraill a dolenni i'w cyfleusterau adrodd yn ôl ar gael ar wefan NetAware NSPCC: www.net-aware.org.uk

Gwasanaethau cymorth

Os oes angen mwy o gyngor neu gymorth arnoch, gall y sefydliadau canlynol eich helpu:

Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd
Os na fydd gan safle gyfleuster adrodd yn ôl, ac os yw'r cynnwys yn ddelwedd rywiol o rywun dan 18 oed, gallwch adrodd yn ôl i Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd (IWF). Mae delweddau rhywiol o unrhyw un o dan 18 oed yn anghyfreithlon, a gall yr IWF weithio i sicrhau eu bod yn cael eu dileu oddi ar safleoedd nad oes ganddynt gyfleuster adrodd yn ôl. Gall oedolion adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r IWF yma www.iwf.org.uk Gall pobl ifanc gysylltu â ChildLine sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r IWF a bydd yn cynorthwyo pobl ifanc drwy'r broses.

NCA-CEOP
Os ydych yn pryderu bod plentyn yn cael ei gam-drin, ecsbloetio neu ei feithrin yn rhywiol, dylech adrodd hynny yn ôl i NCA-CEOP www.ceop.police.uk/safety-centre

Llinell gymorth NSPCC i oedolion: **0808 800 5002**
Mae'r NSPCC wedi partneru ag O2 er mwyn cynnig cymorth uniongyrchol i rieni/gofalwyr ac oedolion eraill ynghylch materion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein.

ChildLine
www.childline.org.uk
Mae ChildLine yn cynnig cymorth uniongyrchol i blant a phobl ifanc yn cynnwys mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â rhannu delweddau rhywiol.

Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol (POSH)
http://www.saferinternet.org.uk/about/helpline
Ffôn: 0344 381 4772
Mae llinell gymorth POSH yn helpu gweithwyr proffesiynol sydd â phryder ynghylch diogelwch ar-lein neu bryder ynghylch diogelwch ar-lein yn achos plant sydd yn eu gofal. Mae gweithwyr proffesiynol yn gallu cysylltu â'r llinell gymorth er mwyn datrys problemau.

Atodiad E

Taflen cyfarwyddiadau ymarferiad

Gall DSP ddefnyddio'r ymarferiad hwn er mwyn archwilio mater delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc gyda staff yr ysgol.

Fe'i dyluniwyd i ddarlunio amrywiaeth o senarios mewn perthynas â delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, ac mae'n amlygu bod angen ystyried ymateb priodol a chymesur ar gyfer pob digwyddiad.

Cyfarwyddiadau i'r hyfforddwr

Adnoddau angenrheidiol:

- Taflen Adnoddau 1 - diffiniadau teipoleg (1 i bob cynrychiolydd)
- Taflen Adnoddau 2 - astudiaethau achos (1 i bob grŵp)
- Taflen Adnoddau 3 - ymateb (1 i bob cynrychiolydd)
- Cerdyn lliw - 6 lliw
- Blu-tack.

Paratoi:

A - Paratowch set o gardiau astudiaethau achos i bob grŵp. (Mae hyn yn cymryd tipyn o amser, ond gellir ailddefnyddio'r cardiau) Os yw'n well gennych, gallwch ddefnyddio astudiaethau achos anhysbys yr ydych yn ymwybodol ohonynt.

Mae'r 15 astudiaeth achos (Taflen adnoddau 2) yn cyfateb i'r chwe chategori teipoleg, fel a ganlyn:

- Gwaethygedig - Oedolyn (astudiaethau achos 4 a 7)
- Gwaethygedig – Person Ifanc gyda Bwriad o Niweidio (astudiaethau achos 5,6,3 ac 8)
- Gwaethygedig – Person Ifanc, Camddefnydd Byrbwyll (astudiaethau achos 9 a 10)
- Arbrofol Rhamantus (astudiaethau achos 11,12 a 2)
- Arbrofol Ceisio Sylw (astudiaethau achos 13,14 a 1)
- Arbrofol Arall (astudiaeth achos 15).

Aseiniwch gerdyn lliw neilltuol i bob un o'r chwe chategori uchod, yna torrwch a gosodwch pob un o'r 15 astudiaeth achos yn unol â hynny.

B - Paratowch 6 o gardiau 'pennawd' gwyn ar gyfer eu gosod ar wal - dylai teitl un o'r teipolegau fod ar bob cerdyn.

Gweithgaredd::

1. Rhannwch y cynrychiolwyr yn grwpiau o 3-4. Pan fo'n briodol, cymysgwch y cynrychiolwyr fel eu bod yn cynnwys ystod eang o brofiad / swyddi ac ati.

2. Rhowch set o gardiau astudiaethau achos i bob grŵp (y 15 os bydd amser yn caniatáu, os nad, sicrhewch bod ganddynt o leiaf un o bob lliw).

3. Dywedwch wrth y cynrychiolwyr i ddarllen pob astudiaeth ac ystyried y cwestiynau canlynol fel grŵp:
   - Pa lefel risg maent yn credu sy'n gysylltiedig â phob achos - gwyrdd/coch/melyn?
   - Pa gamau ddylai'r ysgol eu cymryd?
   - Yn ystod y cam hwn, pa rai o'r astudiaethau achos fyddent yn eu hatgyfeirio i'r heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol?
   - Ar y cam yma, amlinelliad/cynllun gweithredu syml - dim mwy na munud i bob achos.

4. Rhowch gopi o Daflen Adnoddau 1 i bob aelod o'r grwpiau a thrafod teipoleg Finkelhor gyda nhw. Bydd teipoleg Finkelhor yn eu helpu i ddiffinio'r math o digwyddiad a bydd hefyd yn eu helpu i benderfynu ar yr ymateb priodol a chymesur.

5. Rhowch gopi o Daflen Adnoddau 3 i bob cynrychiolydd a gofyn iddynt fel grŵp i benderfynu pa gategori o deipoleg fyddent yn ei aseinio i bob astudiaeth achos. Cofnodwch unrhyw sylwadau ar eu taflenni.

6. Tra bod y cynrychiolwyr yn gweithio, defnyddiwch y blu-tack i osod y 6 cherdyn 'pennawd' o gwmpas yr ystafell.

7. Ar ôl i'r cynrychiolwyr gategoreiddio pob un o'u hastudiaethau achos. gofynnwch iddynt bostio'r cardiau ar y wal o dan y cerdyn 'pennawd' priodol sydd o gwmpas yr ystafell. (Daw'n amlwg yn eithaf sydyn bod y lliwiau'n cyfateb mewn grwpiau ac mae'n dangos pan fo grwpiau'n cytuno/anghytuno ar gategoreiddio).

8. Rhowch sylwadau ar yr enghreifftiau o gytuno ac anghytuno er mwyn amlygu'r amrywiaeth yn y ffordd o feddwl rhwng y grwpiau.

9. Dewiswch amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n adlewyrchu'r gwahanol deipolegau e.e. rhamantus, ceisio sylw, Gwaethygedig - oedolyn ac ati. a gofyn i'r cynrychiolwyr ystyried y canlynol:
   - A yw unrhyw rai o'r astudiaethau achos yn adlewyrchu unrhyw rai o'r pum pwynt ar gyfer atgyfeirio ar unwaith i asiantaethau eraill?
   - Os ydynt, i ba asiantaeth allanol dylid atgyfeirio, a pham?
   - Os nad oes angen atgyfeirio i asiantaeth allanol, pam ddim?

10. Yn achos yr astudiaethau achos na chyrhaeddodd y trothwy atgyfeirio, gofynnwch i'r grwpiau ystyried eu hymateb. Dylai hynny gynnwys ystyriaeth o sut fyddent yn ymateb fel ysgol. Dylent ystyried y canlynol:
    - Sut fyddid yn rhoi cymorth i'r plentyn?
    - Sut fyddid yn hysbysu'r rhieni neu ofalwyr?
    - Sut fyddid yn delio â dileu neu waredu'r delweddau?
    - Sut fyddid yn cofnodi'r digwyddiad?
    - Pwy fyddai'n arwain o ran rheoli'r digwyddiad?
    - Beth fyddai'n digwydd ar ôl rheoli'r digwyddiad?

11. Caniatewch i grwpiau bach darfod y testunau hyn, a phan fo'n bosibl anogwch hwy i gyfeirio at brif gorff y cyngor. Cyfeiriwch at unrhyw elfennau allweddol i'w trafod a manteisiwch ar y cyfle i atgoffa staff am unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol mewn perthynas aâ rheoli digwyddiadau o ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc.

Taflen Adnoddau 1 (Addaswyd o Wolak a Finkelhor 'Sexting: a Typology' Mawrth 2011)

<table>
<tr><td rowspan="3">Mae digwyddiadau gwaethygedig yn cynnwys elfennau troseddol neu gamdriniol y tu hwnt i greu, anfon neu feddu ar ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc.</td><td>Mae troseddwyr sy'n oedolion yn ceisio datblygu perthnasoedd drwy feithrin pobl ifanc, drwy gyflawni troseddau rywiol hyd yn oed heb ddefnyddio delweddau a gynhyrchir gan bobl ifanc. Gall dioddefwyr fod yn ffrindiau i'r teulu, perthnasau, aelodau o'r gymuned neu bobl y cysylltir â hwy ar y rhyngrwyd. Gall y delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc gael eu rhannu ar gais troseddwyr sy'n oedolion.</td></tr>
<tr><td>Ieuenctid yn Unig: Mae achosion o Fwriad i Niweidio yn:
deillio o wrthdaro rhyngbersonol megis tor perthynas a gwrthdaro ymysg ffrindiau
cynnwys ymddygiad troseddol neu gamdriniol megis blacmel, bygythiadau neu dwyll
camdriniaeth neu ecsbloetio rhywiol gan bobl ifanc.</td></tr>
<tr><td>Ieuenctid yn Unig: Camddefnyddio Byrbwyll
Dim bwriad i niweidio ond mae delweddau yn cael eu cymryd neu eu hanfon yn ddiarwybod i'r person ifanc yn y llun neu heb iddo gymryd rhan yn fwriadol yn y digwyddiad. Yn yr achosion hyn mae lluniau yn cael eu tynnu neu eu hanfon yn ddifeddwl neu'n fyrbwyll, ac efallai y bydd dioddefwr yn cael ei niweidio o ganlyniad i hynny.</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae digwyddiadau arbrofol yn ymwneud â chreu ac anfon delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc, heb unrhyw gysylltiad ag oedolyn, dim bwriad amlwg i niweidio na chamddefnydd byrbwyll.</td><td>Achosion rhamantus pan fo pobl ifanc mewn perthnasoedd parhaus yn creu delweddau ar gyfer eu hunain neu ei gilydd, ac na fwriadwyd i'r delweddau gael eu rhannu i neb heblaw pâr dan sylw.</td></tr>
<tr><td>Ceisio Sylw Rhywiol pan fo delweddau'n cael eu creu a'u rhannu rhwng neu ymysg pobl ifanc nad oedd yn hysbys eu bod yn bartneriaid rhamantus, neu pan fo un person yn tynnu lluniau ac yn eu hanfon i nifer o bobl eraill neu'n eu postio ar-lein.</td></tr>
<tr><td>Arall. Achosion nad yw'n ymddangos bod elfennau gwaethygedig yn perthyn iddynt, megis cysylltiad ag oedolion, cymhellion maleisus neu gamddefnydd byrbwyll, ac nad ydynt ychwaith yn perthyn i'r is-fathau Rhamantus neu Geisio Sylw. Mae'r rhain naill ai'n ymwneud â phobl ifanc sy'n tynnu lluniau ohonynt eu hunain ar eu cyfer eu hunain (dim tystiolaeth o anfon neu rannu neu fwriad i wneud hynny) neu blant cyn glasoed (9 oed neu iau) nad yw'n ymddangos bod ganddynt gymhellion rhywiol.</td></tr>
</table>

Taflen Adnoddau 2: Astudiaethau achos (Astudiaethau achos wedi eu haddasu o Wolak a Finkelhor)

Astudiaeth achos 1
Mae'n ymwneud â grŵp o ddisgyblion rhwng 9 a 10 oed. Roedd un ferch (9 oed gyda mân anawsterau dysgu) yn siarad â grŵp o ffrindiau o'r ysgol drwy gyfrwng ap negeseuon poblogaidd. Roedd ei ffôn symudol yn ei hystafell i fyny'r grisiau ac roedd camera ynddo. Roedd yn paratoi i fynd i'r gwely ac yn eistedd mewn tywel a "fflachiodd" ar we-gamera. Y diwrnod canlynol, bu i ddisgybl arall (merch 10 oed) o'r grŵp ddweud wrth yr athro dosbarth yn yr ysgol beth oedd wedi digwydd, ac yn ei thro bu i honno adrodd am ei phryder i'r pennaeth.

Astudiaeth achos 2
Bu i ferch blwyddyn 6 (11 oed) decstio llun ohoni ei hun yn fronnoeth, ond wedi ei gorchuddio, i'w chariad 12 oed (cyn ddisgybl). Ni ddigwyddodd unrhyw weithred rywiol rhyngddynt cyn y digwyddiad hwn ar-lein nac all-lein. Canfuwyd y ddelwedd ar ffôn symudol y bachgen gan ei fam a ddileodd y ddelwedd, ac yna cysylltodd â rhieni'r ferch. Bu i rieni'r ferch gysylltu â'r ysgol i gael cyngor.

Astudiaeth achos 3
Bu i ferch 13 oed anfon llun bronnoeth ohoni ei hun i'w chariad, oedd yn 14 oed. Ar ôl iddynt wahanu, bu i'r bachgen anfon y llun i nifer o'i ffrindiau drwy ei ffôn symudol, a bu i nifer o'r rai a'i derbyniodd anfon y llun ymlaen i eraill. Daeth hyn i sylw'r ysgol pan fu i un person a dderbyniodd y llun ddweud wrth ei rieni. Erbyn hynny, roedd dros 200 o fyfyrwyr wedi derbyn y llun.

Astudiaeth achos 4
Bu i rieni merch 14 oed ganfod lluniau noeth ohoni ar ei dyfais symudol, a bu iddynt gysylltu â'r ysgol i gael cyngor. Cyfaddefodd ei bod wedi anfon y llun i ddyn 37 oed yr oedd wedi ei gyfarfod ar-lein. Dywedodd y ferch ei bod mewn cariad â'r troseddwr, oedd yn byw mewn rhan arall o'r wlad. Nid oedd y dioddefwr erioed wedi ei gyfarfod wyneb yn wyneb.

Astudiaeth achos 5
Roedd dwy ferch Blwyddyn 9 (A a B) wedi gwylltio gyda'i gilydd. Roeddent wedi bod yn ffrindiau ac roedd ganddynt fynediad i luniau noeth o'i gilydd. Bu i Ferch A arddangos llun noeth o Ferch B i eneth arall. Roedd geneth B yn meddwl bod y llun wedi cael ei ddangos i nifer o bobl. Er mwyn talu'n ôl, anfonodd lun o fronnau Geneth A i nifer o fechgyn. Rai dyddiau'n ddiweddarach, aeth y ddwy eneth i swyddfa'r Pennaeth, yn crio ac yn bryderus. Roeddent yn teimlo'n ddig am yr hyn yr oeddent wedi ei wneud.

Astudiaeth achos 6
Bu i rieni disgybl 16 oed gysylltu â'r ysgol oherwydd bod bachgen yn blacmelio eu merch. Dywedodd y dioddefwr ei bod yn ddamweiniol wedi lanlwytho llun noeth ohoni ei hun ar safle rhwydwaith cymdeithasol. Pan sylweddolodd hynny, dileodd y ddelwedd, ond roedd bachgen o ysgol arall eisoes wedi ei lawrlwytho. Roedd yn bygwth ei rannu os na fyddai'n anfon mwy o luniau noeth iddo. Pan wrthododd y ferch, bu i'r bachgen anfon y llun i tua 100 o bobl.

Astudiaeth achos 7
Defnyddiodd merch 16 oed y Rhyngrwyd i anfon lluniau rhywiol iawn ohoni ei hun i nifer o ddynion. Roedd yn defnyddio cyfrifiadur wedi ei ddwyn oherwydd bod ei rhieni wedi cymryd ei chyfrifiadur oddi wrthi. Bu i'w rhieni ddarganfod y trafodaethau ar-lein a chysylltu â'r ysgol i gael cyngor.

Astudiaeth achos 8
Bu i ferch 13 oed dynnu lluniau rhywiol o'i 3 chware iau (5, 6 ac 8 oed) a'u cyffwrdd yn rhywiol. Bu i gyd-ddisgybl ddatgelu'r wybodaeth hon i'w hathro dosbarth. Mae gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn gweithio gyda'r teulu ers peth amser.

Astudiaeth achos 9
Mewn parti ble'r oedd yfed trwm, bu i bum bachgen, 15 oed, ym mhen bas pwll nofio, dynnu eu gwisgoedd nofio i lawr a chael "brwydr cleddyfau". Bu i ferch 17 oed ffilmio hyn ac anfon y fideo i chwe pherson arall drwy ei ffôn symudol. Nid oedd y tri bachgen yn gwybod ei bod wedi ffilmio'r fideo nac wedi ei hanfon. Roedd y fideo yn destun siarad mawr yn yr ysgol a daeth i sylw'r staff addysgu.

Astudiaeth achos 10
Bu i fachgen 16 oed oedd wedi cael ei fwlio yn yr ysgol a'i gellwair am ei "anatomi gwrywaidd" dynnu llun o'i bidyn a'i anfon i gyd-ddisgybl benywaidd. Yn ei thro, bu i honno, heb ganiatâd, anfon y llun i bedair o ferched eraill. Datgelwyd y digwyddiad pan fu i athro gymryd ffôn symudol y bachgen a chanfod ei fod yn defnyddio'r llun fel arbedwr sgrin ar ei ffôn.

Astudiaeth achos 11
Bu i fachgen 14 oed a merch 12 oed a fu'n gariadon am gwpl o wythnosau anfon lluniau a fideos rhywiol i'w gilydd, oedd yn cynnwys lluniau oedd yn dangos mastyrbio. Bu i fam y ferch ganfod lluniau o'r bachgen ar ffôn symudol ei merch a dywedodd wrth y Pennaeth ei bod eisiau erlyn y bachgen hyd eithaf y gyfraith. Pan ddarganfu bod ei merch wedi anfon delweddau hefyd, roedd eisiau i'w merch gael ei herlyn hefyd.

Astudiaeth achos 12
Bu i rieni gysylltu â'r ysgol pan fu iddynt ddarganfod bod eu mab 16 oed wedi derbyn fideo o fachgen 17 oed yn mastyrbio. Roedd eu mab yn hoyw ac mewn perthynas â bachgen arall. Roedd ei rieni mewn trallod oherwydd ei gyfeiriadedd rhywiol.

Astudiaeth achos 13
Bu i ferch 15 oed anfon lluniau noeth ohoni ei hun i dri bachgen gwahanol yn ei hysgol nad oedd wedi gofyn amdanynt, gan ddefnyddio ei ffôn symudol, yn cynnwys i un bachgen oedd yn 18 oed. Yna aeth hi a'i ffrind at ei hathro dosbarth oherwydd eu bod yn pryderu y byddai'r delweddau yn cael eu hanfon o gwmpas yr ysgol.

Astudiaeth achos 14
Bu i ferch 17 oed bostio lluniau noeth ohoni ei hun ar safle rhwydwaith cymdeithasol. Bu i'r wefan glustnodi'r delweddau fel delweddau posibl o gam-drin plant, eu dileu ac adrodd yn ôl am ddigwyddiad i NCA-CEOP, a gyfeiriodd yr achos i'r heddlu lleol. Bu i'r heddlu gysylltu â'r ysgol a siarad â'r ferch, ond ni chafodd ei chyhuddo.

Astudiaeth achos 15
Bu i ferch 11 oed dynnu llun o'i bronnau gyda'i ffôn symudol. Bu i'w nain a'i thaid ddarganfod y delweddau, heb sylwi mai lluniau o'u wyres oeddynt ac aethant â'r ffôn i'r ysgol. Pan holwyd y ferch, bu iddi gyfaddef ei bod wedi tynnu lluniau ohoni ei hun, ond nad oedd wedi eu hanfon i neb.

Taflen Adnoddau 3 - Ymateb

Astudiaeth achos - Teipoleg	Sylwadau	Ymateb
1		
2		
3		
4		
5		
6		
7		

Astudiaeth achos – Teipoleg	Sylwadau	Ymateb
8		
9		
10		
11		
12		
13		
14		
15		

Atodiad F

Siart llif ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau

Ystyriaethau - asesiad risg

- Pa mor agored i niwed yw'r plentyn
- Gorfodaeth
- Sut y rhannwyd ac ym mhle
- Effaith ar blant
- Oedran y plant

(I gael mwy o wybodaeth gweler Atodiad A)

Datgeliad cychwynnol
Gall disgybl wneud hynny'n uniongyrchol, neu riant, neu ffrind y disgybl.

Adolygiad cychwynnol gyda'r tîm diogelu
Yn ystod y cam cychwynnol hwn, mae'r tîm diogelu yn adolygu'r wybodaeth ac yn ystyried y 5 pwynt ar gyfer atgyfeirio ar unwaith. Maent yn gwneud penderfyniad cychwynnol ynghylch a ellir delio â'r digwyddiad yn fewnol. Ceisio cymorth gan Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol
(Am fwy o wybodaeth gweler tudalen 13)

Asesiad Risg/Delio â'r digwyddiad
Ystyriwch y risg o niwed, ac ar unrhyw adeg os oes yna 'achos pryder' gallwch atgyfeirio i'r heddlu/gwasanaethau cymdeithasol. (I gael mwy o wybodaeth ewch i dudalen 14 ac Atodiad A)

Rheoli mewn ysgolion
Sicrhewch bod y rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu a bod y digwyddiad yn cael ei gofnodi gan ddilyn yr holl weithdrefnau amddiffyn a diogelu plant. (Am fwy o wybodaeth gweler tudalen 14)

5 pwynt atgyfeirio:
1. Cysylltiad ag oedolyn
2. Gorfodaeth neu flacmel
3. Eithafol neu dreisgart
4. O dan 13
5. Risg uniongyrchol o niwed

(I gael mwy o wybodaeth ewch i adran 2)

Atgyfeirio i'r heddlu/gwasanaethau cymdeithasol/MASH
Cyfeiriwch at eich trefniadau lleol ar gyfer delio â digwyddiadau a chysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol.
(I gael mwy o wybodaeth ewch i dudalen 17)

Ymwrthodiad

Ystyriwyd deddfau perthnasol ac arferion gorau wrth ddatblygu'r ddogfen hon. Fodd bynnag, mae gan y materion yma y posibilrwydd o fod yn rhai cymhleth ac amlweddog. Mae cyfraith achos yn y maes yma yn dal yn eithaf annatblygedig, ac ni ddylid ystyried bod unrhyw beth yn y ddogfen hon yn gyngor cyfreithiol.

Nid yw awduron y ddogfen hon na chyfranwyr eraill yn derbyn dim atebolrwydd am unrhyw ddifrod neu golled a ddioddefir neu a ysgwyddir naill ai'n uniongyrchol, yn ganlyniadol, yn anuniongyrchol neu fel arall gan unrhyw un sy'n dibynnu ar y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn neu unrhyw wybodaeth y cyfeirir ati ynddo.

Roedd cyfeiriadau gwefannau, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfeiriadau eraill yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, ond gallant fod yn destun newidiadau gydag amser.

UKCCIS
UK COUNCIL FOR CHILD INTERNET SAFETY